# ECO'R WYDDFA


RHIF 331 MAWRTH 2006 PRIS 40c




*Jamie Oliver y dyfodol? Llwyddiant Cogydd o Ysgol Brynrefail - trowch i dud.10.*

trowch i dud.10.

# Gŵyl Ffilmiau Llanberis




**PENWYTHNOS O ANTUR YN LLANBERIS**

**BYDD sêr y byd antur mynydd yn dod i Fro'r Eco y penwythnos yma ar gyfer gŵyl arbennig.**

O nos Wener tan dydd Sul (Mawrth 3–5), bydd ffilmiau, darlithoedd, nosweithiau cymdeithasol, sgyrsiau a thrafodaethau yn cael eu cynnal yn ystod trydydd Gŵyl Ffilmiau Mynydd Llanberis.

Mae'r pentref a'r ardal gyda arwyddocâd crefyddol bron i fynyddwyr, dringwyr ac anturwyr yr awyr agored ers degawdau – a gobaith gŵyl LLAMFF 2006 yw adlewyrchu a dathlu hyn.

Ymysg y siaradwyr o fyd mynydda ac anturiaethau awyr agored fydd Leo Houlding, Andy Kirkpatrick, Jamie Andrew, Simon Yates, John Gaskins a Ben Bransby.

Hefyd yn cymryd rhan yn yr ŵyl fydd yr awduron a'r teithwyr, Bethan Gwanas a Llion Iwan, ac hefyd Dewi Pws – fydd yn dangos sleidiau tra'n sgwrsio am ei helyntion led-led y byd, yn ffilmio'r rhaglen deledu boblogaidd *Byd Pws*.

Ymysg y digwyddiadau eraill fydd sgwrs gan Caradog Jones, y Cymro cynta i ddringo Everest, trafodaeth am newid hinsawdd gan banel o arbenigwyr a sgwrs am hanes Jamie Andrew a Jamie Fisher a gafodd eu dal am bum noson ar Mont Blanc. Daeth yr achubwyr yn rhy hwyr i Fisher, a chollodd Andrew ei ddwylo a'i draed i losg eira. Ers hynny, aeth Andrew ymlaen i redeg marathon a chyrraedd copa Mt Blanc a Kilimanjaro

Canolbwynt y penwythnos, wrth gwrs, yw'r ffilmiau. Ymysg rhain mae ffilm sy'n darlunio hanes Chwarel Dinorwig, un arall sy'n adrodd stori daschund o'r enw Rosco yn mwynhau ei hun yn rhew ac eira'r gaeaf yng Nghanada, a ffilm am grŵp o ddringwyr ag anableddau corfforol yn dod ynghyd i ddringo Kilimanjaro.

Digwyddiadau eraill dros y penwthnos fydd ras hwyl wedi ei threfnu gan Redwyr Eryri, teithiau tywys beic mynydd a gweithdai gan Syrcas Circus yng nghanol y pentref.

Yn ôl trefnwyr yr ŵyl: 'Mae LLAMFF 2006 yn gaddo rhaglen penigamp o ffilmiau, ddarlithoedd, sgyrsiau, barddoniaeth, ffotograffiaeth a chelf, yn dod o Gymru a phedwar ban y byd – ceir blas ar hanfod antur a chyffro chwaraeon yn y mynyddoedd, yn ogystal â'r cyfle i ddathlu celfyddyd a diwylliant mynydd byd eang.'

Bydd tocynnau a gwybodaeth ar gael o ddesg yr ŵyl yng nghyntedd Canolfan Ymwelwyr y Mynydd Wefru, Llanberis – lle mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau yn cael eu cynnal.

Am fwy o fanylion ffoniwch (01286) 871534 neu ewch at www.llamff.co.uk

# Beicio mynydd v Sgïo – Beth fydd dyfodol Glyn Rhonwy

**UNWAITH eto mae dyfodol chwarel Glyn Rhonwy wedi bod yn y newyddion wrth i fanylion dau ddatblygiad gael eu datgelu o fewn dyddiau i'w gilydd.**

Mae'r cwestiwn o beth ddylid ei wneud efo'r hen safle wedi cael ei drafod ers blynyddoedd bellach – yn wir ers y rhifyn cyntaf un o'r Eco, dri deg mlynedd yn ôl – ond nawr mae dau geffyl yn y ras i ddatblygu'r lleoliad gyda gwahanol gynlluniau.

Ddiwedd mis Chwefror daeth y newyddion bod grŵp lleol wedi bod yn gweithio ar gynllun i godi canolfan feicio mynydd £12m fyddai'n creu hyd at 500 o swyddi ar yr hen safle chwarel ger Llanberis.

Ac o fewn dyddiau – cyn i'r dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau i Gyngor Gwynedd gyrraedd – roedd cwmni Adwy Eryri wedi rhoi cais arall i droi'r tir yn lethr sgïo ac eirfyrddio, yn ogystal â llety gwyliau a chyfleusterau hamdden.

Mae'r cynlluniau i gael llethr sgïo yn hysbys ers peth amser, gyda chwmni Adwy Eryri wedi bod mewn trafodaethau i godi canolfan sgïo yn y safle ers 2002. Yn Chwefror 2004 fe gafodd y cwmni sicrwydd na fyddai Cyngor Gwynedd, sydd yn berchen y tir, yn trafod datblygu'r safle â neb arall er mwyn i'r cyngor wneud asesiad o effaith y cynllun ar yr ardal. Ond fis Mehefin y llynedd, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd eu bod nhw wedi penderfynu trafod â chwmnïau eraill am ddyfodol y safle, oes oedd gan unrhyw un ddiddordeb. Felly erbyn heddiw mae dau gynnig ger eu bron.

Beicio Llanberis Cyf sydd wedi cyflwyno'r cynllun beiciau – cynllun fydd yn dibynnu ar arian Ewrop ac arian preifat.

Os yw'r cynllun yn cael ei gymerdwyo, gallai'r gwaith gychwyn yn gynnar y flwyddyn nesaf a'r ganolfan agor yn 2008.

Nod y mudiad cydweithredol yw troi Canolfan Glyn Rhonwy yn ganolfan digwyddiadau chwaraeon a chystadlaethau.

Bydd y ganolfan yn cynnwys canolfan ymwelwyr, caffi, siop feiciau, neuadd ddarlithio ac unedau busnes.

Dywedodd y trefnwyr iddyn nhw gael caniatâd amlinellol gan dirfeddianwyr i agor rhannau o dir fel y gellir datblygu rhodfeydd.

'Bydd y cynllun yn troi Llanberis yn "ganofan antur" Prydain a bydd buddiannau economaidd yn golygu swyddi o ansawdd uchel a hyfforddiant i bobol ifanc fyddai fel arall yn gadael yr ardal,' meddai Alun Hughes, cadeirydd y cwmni.

Dywedodd Adwy Eryri Cyf, ar y llaw arall, ei fod yn gobeithio y gallen nhw barhau â'r broses gynllunio ar gyfer atyniad sgïo fyddai ar agor i ymwelwyr drwy'r flwyddyn – ac yn creu 600 o swyddi.

Dywedodd y cwmni ei fod yn ymwybodol fod yr ardal yn sensitif o ran yr amgylchedd a'r iaith Gymraeg – pryderon sydd wedi codi am y datblygiad yn y gorffennol.

'Fel pobl fusnes lleol rydyn ni'n cydnabod yn llawn effaith datblygiad fel hwn ar ardal,' meddai cyfarwyddwr Adwy Eryri, Gwyn Pritchard. 'Ond rydyn ni wedi ymrwymo i greu profiad i ymwelwyr fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r cynefin naturiol ac yn cyd-fynd â gweithgareddau sydd eisoes ar gael yn Eryri.'

Dywedodd y cwmni y byddai'n fodlon gweithio ochr yn ochr â Beicio Llanberis Cyf.

Dywedodd Cyngor Gwynedd y byddai gweithgor Glynrhonwy yn astudio'r holl geisiadau cyn i'r argymhellion gael eu cyflwyno i bwyllgor ardal Arfon o fewn wythnosau.

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 331**
**MAWRTH 2006** *Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Tîm Golygyddol**
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com
Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**DEINIOLEN:** Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, 20 MAWRTH**
**Os gwelwch yn dda Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, 30 MAWRTH**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu â | Rhif Ffôn |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 20 Mawrth | 30 Mawrth | Cwm y Glo | Iris Rowlands | 872 275 |

Cylch Cymraeg Trelew
Chile 226
Trelew, Chubut
Patagonia
erw-wen@speedy.com.ar

Annwyl Garedigion Patagonia yng Nghymru

Gair ydy hwn i ddiolch i chi i gyd am eich cyfraniadau mor hael i ni yma yn Nhrelew, Patagonia. Gair bach i ddiolch am yr holl weithgareddau codi arian a gynhaliwyd yn ystod y ddwy flynedd ddwetha, a gair i ddiolch i'r holl bobl a gyfrannodd eu hamser a'u harian i'n galluogi ni i sefydlu Ysgol Gymraeg yn y Wladfa.

Erbyn heddiw dim ond mis sydd i fynd cyn gwireddu'r freuddwyd, mis i fynd cyn yr agoriad swyddogol a mis yn unig i orffen yr holl waith o brynu ac addasu'r adeilad i ateb gofynion ysgol feithrin swyddogol talaith Chubut. Ry'n ni'n dal ychydig bunnoedd yn brin o'n targed ond yn hyderus y down o hyd i'r arian rywsut.

Cafwyd Cyfarfod Cyffredinol y Cylch neithiwr er mwyn derbyn y cyfansoddiad newydd ac ethol swyddogion i'r pwyllgor. Mae'n bleser gennyf eich hysbysu fod Enrique Korn, a fu'n astudio yn Llanbed y llynedd wedi ei ethol yn Llywydd; Susana Celano Davies (a astudiodd yn Llanbed yn 2000) yn Drysorydd a minnau yn Ysgrifennydd.

Ymysg y swyddogion eraill mae Juan Alberto Davies a astudiodd yn Llanbed y llynedd, Ricardo Irianni a astudiodd yn Aberystwyth ym 1999, Santiago Meza a astudiodd yn Llanbed a Choleg Glynllifon yn 1996/7, Patricia Perrozzi (Llanbed 2004), Mario Jones (Llanbed 1997) a Rhona Lloyd.

Mae Judith Jones (Llanbed 2005) wedi ei phenodi yn athrawes ac rydym yn ffodus iawn i'w chael hi. Fel y gwelwch mae Cynllun yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia yn dwyn ffrwyth.

Diolch i chi i gyd am eich diddordeb a'ch haelioni. Gobeithio y cawn eich croesawu i gyd i Drelew yn y dyfodol agos.

Diolch o galon,

CATRIN MORRIS DE JUNYENT
Ysgrifennydd
Cylch Cymraeg Trelew

Clwb Rotary
Tref Frenhinol Caernarfon

### DIOLCH

Dymuna aelodau Clwb Rotari Tref Frenhinol Caernarfon ddiolch o galon i drigolion Caernarfon a'r Cylch am eu cymorth i gasglu'r swm anrhydeddus o £5,782 tuag at Apêl Bocsus Lloches i Bacistan ac Achosion Lleol, dros gyfnod y Nadolig.

Mae 8 Bocs Lloches wedi eu hanfon i Islamabad, Pacistan, hyd yma i roi lloches i'r rhai sydd mewn gwir angen ar ôl y daeargryn anferthol yno. Mae'r Apêl yn dal i fynd yn ei blaen a gobeithiwn anfon mwy o gymorth maes o law. Yr ydym yn ddiolchgar iawn am gydweithrediad yr athrawon a disgyblion y tair Ysgol Uwchradd yn ein hardal. Maent wedi casglu digon o arian rhyngddynt i anfon 4 Bocs Lloches, ymdrech arbennig iawn! Bydd yr arian sydd yn weddill yn mynd at achosion da lleol.

Y mae 1.2 miliwn o Rotarians mewn 31,000 o glybiau drwy'r byd ac mae 1,800 ohonynt yn y Deyrnas Unedig. Mae Clwb Rotari Caernarfon yn awyddus i gael aelodau newydd ar hyn o bryd. Byddwn yn cyfarfod am un o'r gloch ar ddydd Llun yn wythnosol yng Ngwesty'r Prince of Wales, Stryd Bangor, Caernarfon. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r Clwb, (dynion neu ferched), yna cysylltwch â'r Ysgrifennydd ar (01286) 830883; y Llywydd ar 830203 neu'r Is-Lywydd ar 672633.

Gyda llawer iawn o ddiolch i chwi oll.

NEVILLE ROBERTS, LLYWYDD,
a holl aelodau Clwb Rotari
Caernarfon.

---

Menter Iaith Gwynedd
38–40 Stryd Fawr
Caernarfon

Annwyl Ddarllenwyr

Apêl am Aelodau

Ysgrifennaf atoch ar ran Menter Iaith Gwynedd i'ch hysbysu ein bod yn sefydlu Gweithgorau newydd i gefnogi gwaith y Fenter yng nghymunedau'r sir.

Ein bwriad ydy sefydlu tri Gweithgor ar gyfer y sectorau canlynol: Y Sector Preifat, Cymunedol / Dysgwyr ac Ieuenctid. Bwriad sefydlu'r Gweithgorau ydy denu cyfranogiad gan unigolion sydd â diddordeb yn y meysydd hyn, rhannu syniadau am gynlluniau posib a chlywed llais cymunedau a thrigolion Gwynedd er budd y Gymraeg.

Rydym yn edrych am unigolion sydd â phrofiad neu ddiddordeb yn natblygu'r Gymraeg ym myd busnes, yn gymunedol, i gefnogi dysgwyr neu i annog ieuenctid i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd y Gweithgorau'n cyfarfod yn chwarterol.

Os oes gennych didddordeb i gyfrannu a chefnogi gwaith y Fenter i ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg – cysylltwch â ni ar fyrder (cyfarfodydd cyntaf i'w cynnal ganol mis Mawrth 2006).

**Byddai'r Fenter yn gwerthfawrogi a chroesawu eich cyfraniad.**

Mawr obeithiwn glywed gennych yn fuan. Cysylltwch â ni ar un o'r rhifau canlynol: (01766) 543030 / (01286) 674111 neu (01758) 614114 neu menteriaith@cymad.org

Yn gywir iawn

Angharad Llwyd-Jones
Prif Swyddog Iaith

---

Sycharth
Llanberis

Annwyl Ddarllenwyr

Bydd Cwmni Drama Llanberis yn ailgychwyn gweithgareddau o'r mis hwn ymlaen.

Byddwn yn cyfarfod am 7.30 nos Fawrth, 14 Mawrth, ac yna bob nos Fawrth wedi hynny. Mae angen rhagor o aelodau arnom, yn ferched a dynion, i actio neu/a chynorthwyo ar y llwyfan ayyb.

Peidiwch â phryderu os nad oes gennych brofiad o actio, mae'n haws o lawer na mae rhywun yn feddwl.

Mae Theatr Fach Gorffwysfa yng nghanol pentref Llanberis, tu ôl i siop Formag. Os oes diddordeb gennych, yna dewch draw ar y noson, neu ffoniwch Bert Parry ar (01286) 871433, neu Dr Gwyn Williams ar (01286) 870101.

Yr eiddoch yn gywir
Bert Parry

## Gair o Gae'r Gors
### Cyfarfod Agored y Cyfeillion

Pe bai gen i hudlath yn fy llaw, mi fuasai heddiw'n ddiwrnod arbennig iawn. Mi fuasai rhuban mawr coch am adwy Cae'r Gors a Kate Roberts ei hun yno i agor y ganolfan yn swyddogol. Efallai y byddai Darwin yn cytuno rhoi pwt o sgwrs inni yn y pnawn a Parry-Williams yn digwydd galw draw amser te i ddymuno pob hwyl i'r cynllun. Ond, does gen i ddim hudlath nac unrhyw bwerau lledrithiol a bydd rhaid bodloni ar allu pensaerniol Jones Bros i godi Cae'r Gors ar ei draed!

Mewn difrif, mae'r cyfnod yma'n un cyffrous yn hanes Cyfeillion Cae'r Gors. Wedi blynyddoedd o waith caled gan aelodau ymroddgar y cynllun, mae'r freuddwyd bellach yn cael ei gwireddu a gwaith adfer y tyddyn ac adeiladu'r ganolfan eisoes ar droed. Fel rhwyun sy'n newydd i'r cynllun, rwyf i, ynghyd ag aelodau o'r pwyllgor gwaith, yn awyddus i gael clywed barn y gymuned leol ac i dderbyn arweiniad gan rai sydd ag arbenigedd mewn meysydd perthnasol yng nghyd-destun y cynllun.

Bydd y cyfarfod agored yn gyfle i rannu syniadau newydd. Rydym yn awyddus i wybod sut y gall y ganolfan fod yn adnodd gwerthfawr i'r ardal a bydd y cyfarfod yn gyfle inni ddarganfod sut mae modd i'r cynllun ddiwallu anghenion y gymuned leol.

Rydym yn awyddus i wahodd unigolion i wirfoddoli â'r cynllun yn ogystal. Mae angen unigolion brwdfrydig arnom i ymuno ag is-bwyllgorau gweithgar y cwmni. Byddai derbyn arweiniad gan unigolion â phrofiad mewn rhedeg prosiectau cymunedol neu fusnes, ac yn benodol yn y byd marchnata, o fudd mawr i'r cynllun. Rhown groeso yn ogystal i unigolion sydd â diddordeb mewn cynorthwyo â gweithgareddau codi arian, digwyddiadau adloniannol ac addysgol y ganolfan.

Cynhelir y cyfarfod agored nos Fawrth, 14 MAWRTH 2006 am 7 o'r gloch yn Ysgol Rhostryfan.

SIAN EIRIAN
Rheolwr Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts.

## UN FUNUD FACH

### GŴYL DDEWI

Mae Gŵyl Ddewi'n gyfle arbennig i gydnabod bywyd a gwaith un o Gristnogion mwya'r oesoedd. Teithiodd y gŵr hwnnw yn helaeth i gyhoeddi'r Efengyl. Pregethodd Grist y Groes a'r bedd gwag yn wyneb pob math o erlid. Tystiodd am gariad Duw o bentref i bentref ac o wlad i wlad. Ac ar Ŵyl Ddewi, cofiwn iddo wneud hynny ymhlith ei genedl ei hun ac yn iaith ei bobl ei hun. Heb os, mae gennym le mawr i ddiolch am gyfraniad ac esiampl yr Apostol Paul.

Go brin y byddai Dewi Sant yn gwarafun i mi sôn am yr Apostol. Gweision i'r un Arglwydd a phregethwyr yr un Efengyl oedd y ddau. Rwy'n hoff iawn o'r cyfeiriad yn Actau 22:2 at Paul yn annerch pobl Jerusalem yn 'iaith yr Iddewon'. Ymateb y bobl sy'n ddiddorol: 'Pan glywsant mai yn iaith yr Iddewon yr oedd yn eu hannerch, rhoesant wrandawiad tawelach iddo.' Gwyddai Paul mor bwysig oedd cyflwyno'r Efengyl i'w genedl ei hun yn iaith y genedl honno. A phan siaradodd Aramaeg â'i bobl, fe gafodd well gwrandawiad.

Ar ei gorau mae'r Eglwys Gristnogol wedi credu erioed mewn cyflwyno'r Beibl a'i neges yn iaith y bobl. Roedd yr egwyddor honno'n sicr yn ganolog i'r Diwygiad Protestanaidd a'i ddylanwad. Yr un argyhoeddiad sydd wrth wraidd pob ymdrech i gyfieithu'r Beibl i wahanol ieithoedd. Os dathlu unrhyw beth ar Ŵyl Ddewi, dathlwn o'r newydd fod Efengyl Gras wedi teithio'n helaeth dros gledrau'r Gymraeg ar hyd y cenedlaethau. A diolch am hynny, mae'n parhau ar ei thaith.

Fe gawsom iaith arbennig: iaith brydferth a chyfoethog; iaith i'w thrysori a'i diogelu; iaith i'w siarad a'i hanrhydeddu. A'r gorau y gallwn ei wneud â'r iaith hon yw ei harfer yn iaith addoliad ac yn iaith cyhoeddi Efengyl odidog Iesu Grist. Dyna'r defnydd gorau posibl o unrhyw iaith. Prif ddiben y Gymraeg, fel pob iaith arall, yw gogoneddu'r Duw a'n carodd.

Mae'r Efengyl yn dal i wisgo'i Chymraeg. Mae'n gwneud hynny am mai dyna sy'n iawn, a hefyd am ei bod yn credu y caiff well gwrandawiad o fynd i'r drafferth i wneud hynny. Yn ei gwisg Gymraeg bu'r Efengyl yn ddeniadol ac yn ennill serch cenedlaethau o ddilynwyr Crist. Fe wnaiff hynny eto gobeithio yn ein dydd ninnau, ac am ganrifoedd i ddod.

Fel Paul, a fel Dewi, mynnwn gyhoeddi Crist yn ein hiaith ein hunain; a Duw'r gras a rydd i ninnau'r 'gwrandawiad tawelach' a ddaw gobeithio yn ffordd achubiaeth i lawer o'n cyd-Gymry.

JOHN PRITCHARD

### Masnachu Teg

O'n tai, i'r Tesco pob tywydd – yr awn
I brynu'n gawodydd;
Elw dyn o haul y dydd,
A lenwa gôd miliwnydd.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

# Cyngor Cefn Gwlad Cymru

**'Helpwch ni i atal tanau yng nghefn gwlad' – dyna'r neges mewn taflen newydd fydd yn cael ei hanfon i dirfeddianwyr yng Nghymru dros yr wythnosau nesaf.**

Gwelwyd lleihad sylweddol yn y niferoedd o danau yng ngefn gwlad yn 2004 a 2005, diolch i ofal gwaith rhag-gynllunio tirfeddianwyr. Mae'r Fforwm Dros Reoli Tanau Cefn Gwlad yn gobeithio y bydd y patrwm yma'r parhau yn 2006.

Meddai Mike McCabe, Cynghorwr Cadwraeth gyda'r Cyngor Cefn Gwlad,

*'Mae llosgi grug a glaswellt yn rhan bwysig a thraddodiadol o reolaeth cefn gwlad. Mae llosgi dan reolaeth yn annog tyfiant grug ifanc, maethlon gan roi bwyd cyfoethog a parhaus i dda byw, adar gweundiroedd a rhywogaethau eraill.*

*'Mae'r daflen, fydd yn cael ei hanfon at fwy na 9,000 o dirfeddianwyr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn cynnig cyngor ar sut i gynllunio a gwneud gwaith llosgi'n effeithiol ac yn ddiogel.'*

Mae rhai o'r pwyntiau'n cynnwys pwysigrwydd:

- Rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Tân cyn dechrau llosgi;
- Trefnu'r gwaith llosgi – i ddigwydd rhwng 1 Tachwedd a 15 Ebrill yn yr ucheldir; a rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth ar dir isel;
- Gofyn caniatâd gan y Cyngor Cefn Gwlad ar dir sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- Gofalu, bob amser, nad yw'r ardal sydd am ei llosgi yn cael ei defnyddio gan adar sy'n magu cywion;
- Cynllunio system o strimynnau atal tân i warchod eiddo, ffyrdd ac ardaloedd sy'n bwysig i fywyd gwyllt;
- Gall tanau mawn losgi am fisoedd lawer a dylid eu hosgoi.

Mae'r daflen yn rhoi cyngor ymarferol ar beth ddylid ei wneud ar ddiwrnod y llosgi yn ogystal ag amlinelliad o'r gyfraith ar y mater. Mae'n rhoi cysylltiadau defnyddiol ar gyfer mwy o wybodaeth a chyngor.

Mae Fforwm Cymru dros Reoli Tanau Cefn Gwlad yn cynnwys y Cyngor Cefn Gwlad, y Gwasanaethau Tân, yr Heddlu a'r Parciau Cenedlaethol.

Mae'r daflen ar gael, yn rhad ac am ddim, gan uned ymholiadau'r Cyngor Cefn Gwlad.

# Tir Comin Uwchgwyrfai

**Cymunedau Llanwnda, Llandwrog a Betws Garmon, Gwynedd**

| | Llyfrgell Penygroes | Swyddfa Bost Rhosgadfan | Siop Doris Carmel | Post House Carmel |
|---|---|---|---|---|
| Llun | | 9.00–10.00 | 8.30–12.00<br>2.00–5.00 | 8.00–1.00 |
| Mawrth | 3.00–7.00 | 9.00–1.00 | 8.30–12.00<br>2.00–5.00 | 8.00–1.00 |
| Mercher | 3.00–7.00 | 9.00–1.30 | 8.30–12.00<br>2.00–5.00 | 8.00–1.00 |
| Iau | 2.00–5.00 | 9.00–1.00 | 8.30–12.00<br>2.00–5.00 | 8.00–1.00 |
| Gwener | 10.00–12.30<br>4.00–7.00 | | 8.30–12.00<br>2.00–5.00 | 8.00–1.00 |
| Sadwrn | 10.00–12.00 | 9.00–1.00 | | |

Hysbysir drwy hyn o'r bwriad i godi nifer o ffensys, er mwyn rheoli symudiad stoc, efo pyst pren ac o ryw 1 medr o uchder, yn dod i gyfanswm o ryw 720 medr o hyd, ac yn cynnwys mannau croesi a giatiau, wrth ymyl gridiau gwartheg ar nifer o safleoedd ar Dir Comin Uwchgwyrfai wrth y cyfeirnodau grid canlynol:

SH511577, SH511571,
SH507567, SH504567,
SH506565, SH499566,
SH497560, SH513559,
SH492557 a SH489551,

ac i wneud cais o dan Adran 194 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 am ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gelir archwilio'r mapiau sy'n dangos lleoliad y cynigion yn Llyfrgell Penygroes, Swyddfa Bost Rhosgadfan (Clwb Cymdeithasol Mountain Rangers), Siop Doris Carmel, a Post House, Carmel, rhwng yr oriau tan y 25ain dydd o fis Mawrth 2006.

Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ysgrifennu at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Adran Gynllunio 1A, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ar neu cyn y dyddiad hwnnw, gan ddatgan y rhesymau dros unrhyw wrthwynebiad.

Nodwch yr hysbysir pobl eraill o unrhyw sylwadau a wneir.

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
☎ FFONIWCH ☎
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)
Eifion Hughes (7 diwrnod)
Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:
WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

# CHWILOTA

## Castell Rhidyn a Chroes Beuno



**Nid yn aml y bydd cyrion ardal bro'r *Eco* yn cael sylw yn y golofn hon, ond y mis hwn awn i ardal sy'n disgyn rhwng dalgylch yr *Eco* a dalgylch *Lleu*. Hyd y gwn i, fu erioed newyddion 'pentref' yn yr un o'r ddau bapur dan bennawd Rhos Bach, roeddent yn cael eu cynnwys dan Gaeathro neu'r Bontnewydd yn y naill bapur neu'r llall.**

Dyma ardal a berthynai i drefgordd Castellmai ymhell cyn bod sôn am ffurfio'r plwyfi fel unedau o wleidyddiaeth leol, ac yr oedd yn ardal o drigolion rhydd yn hytrach na'r caethion a drigai mewn trefgorddau megis Dinorwig a Dolbadarn. Daeth tiroedd y drefgordd yn ddiweddarach yn eiddo i fân dirfeddianwyr, a'u llyncu mewn amser gan rai o'r stadau mawrion.

Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod pobl wedi byw yn yr ardal hon ers canrifoedd, a bod olion ohonynt wedi parhau – unai'n weladwy ar y ddaear ar ffurf cytiau crynion, a lleiniau cul o dir ffermio, neu mewn chwedlau sydd bron wedi darfod o'r tir.

Wrth bori drwy ôl-rifynnau o gylchgrawn *Archaeologica Cambrensis* yn ddiweddar deuthum ar draws cyfeiriadau at faen a ddarganfuwyd ar lan afon Beuno, rhwng Rhos Bach a'r Bontnewydd. Ni roddir dyddiad ar gyfer y darganfyddiad, ond ceir troed-nodiad yn adrodd i'r maen gael ei drosglwyddo i Blas Aberglaslyn, ger Beddgelert, ond iddo gael ei drosglwyddo i Eglwys Clynnog yn 1919. Ar y maen, naddwyd croes Geltaidd sy'n dyddio i'r chweched neu'r seithfed ganrif.

Yr awgrym yw fod y darganfyddiad yn gysylltiedig â phennod yn 'hanes' bywyd Sant Beuno. Yn ôl traddodiad daeth Beuno i gantref Arfon a gwneud cais i Gadwallon am dir i sefydlu eglwys. Rhoes y brenin rodd o dir iddo mewn lle o'r enw Gwaredawc, ac yno, sefydlodd Beuno ei eglwys. Yn ddiweddarach, oherwydd ffrae ynglŷn â'r tir, derbyniodd Beuno dir gan gefnder y brenin a sefydlu yng Nglynnog, ble saif ei eglwys hyd heddiw. Dyna'r 'hanes' neu'r traddodiad; ac mae'n amlwg fod rhywfaint o'r ffeithiau ynglŷn â Beuno yn gywir.

Gwaredog, ym mhlwyf Llanwnda – gyferbyn â phentref y Waunfawr, ar draws afon Gwyrfai – yw'r Gwaredawc a roddwyd yn rhodd i Beuno. Diddorol nodi hefyd fod sant neu offeiriad cenhadol cynnar arall yn gysylltiedig â'r safle, sef Garmon ap Goronwy, a oedd yn cyd-ddyddio â Beuno. Dywedir hefyd fod Ffynnon Beuno wedi ei lleoli gerllaw Gwaredog Isaf, ond ni cheir unrhyw gyfeiriad ati yng nghyfrol Eirlys a Ken Lloyd Griffith ar *Ffynhonnau Cymru*, er fod nifer o ffynhonnau eraill cysylltiedig â Beuno yn cael eu henwi. Tybed a oes un o'r darllenwyr yn medru ei lleoli?

Diddorol yw nodi hefyd fod yr ardal o amgylch Gwaredog yn frith o olion yn dyddio o'r cyfnod sy'n cyd-fynd â dyddiadau Beuno, ac y mae safleoedd tebyg yn Bryn Beddau ar draws yr afon yn ochr y Waunfawr. Darganfuwyd bwyelli hefyd yn Rhos Bach ac yng Nghastellmai. Roedd yn ymddangos fod cymdeithas eithaf poblog yn byw yn yr ardal hon bron i bymtheg canrif yn ôl. Does ryfedd felly i un o'r cenhadon cynnar geisio sefydlu cell neu eglwys yma.

Mae cofnodion llawer diweddarach, ond eto'n hynafol, yn sôn am drosglwyddo tiroedd yn nhrefgordd Castellmai, ac enwir un daliad fel Cae y Maen Llwyd. Tybed ai cyfeiriad sydd yma at y maen gyda'r groes Geltaidd arni neu at olion eraill sydd bellach wedi llwyr ddiflannu, sef y tebygolrwydd fod cromlech unwaith yn sefyll ar dir gerllaw Castellmai?

Daw'r cyfeiriad at gromlech mewn gwaith nas cyhoeddwyd yn dyddio o 1765, sef *Snowdonia Druidica* gan Richard Farrington, a oedd yn Ficer Llanwnda a Llanfaglan ar un cyfnod, ac felly yn adnabod yr ardal yn bur dda. Mae'r llawysgrif hon bellach ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'n ymddangos oddi wrth y disgrifiad fod mwy nac un siambr gladdu i'r gromlech hon, ac y mae Farrington yn galw'r safle yn Castell Rhidyn, *'heb fod ymhell o'r ty a elwir Castellmai.'*

Prin yw mapiau cynnar o'r ardal, ond ceir cyfeiriad yn y Map Degwm at 'Gae Castell'. Mae wedi ei leoli ar ochr y ffordd sy'n arwain o Ros Bach tua Chastellmai – y cae ar y chwith yn union wedi croesi afon Beuno. Ar fap cynnar yr O.S. (1889) dangosir ffynnon yn y cae hwn, a llwybr troed yn arwain ati o'r ffordd.

Does gen i ddim adnabyddiaeth fanwl o'r ardal hon, felly, byddwn yn ddiolchgar pe bai unrhyw ddarllenydd yn gallu cysylltu os oes ganddynt wybodaeth am enw'r cae hwn heddiw, ac a oes ffynnon yn dal yno. Ac a glywodd urnyw un am Rhidyn, oherwydd ar wahân i'r cyfeiriad hwn ato gan Farrington, ni chlywais yr enw erioed o'r blaen.

Dyna dipyn o waith i ddarllenwyr yr *Eco* (a *Lleu*) y mis hwn: darganfod lleoliad Ffynnon Beuno, enw'r cae a arferai fod yn Gae Castell, lleoli ffynnon arall yn y cae hwnnw, a chwilio am gymeriad o'r enw Rhidyn. Edrychaf ymlaen am doreth o alwadau ffôn!

**Cofebau Cymry Lerpwl**

Yn dilyn y wybodaeth a anfonwyd gan Mr Owie Jones o Gaernarfon ynglŷn â chofeb Capel Edge Lane yn y rhifyn diwethaf, derbyniais lythyr diddorol gan Margaret Roberts, eto o Gaernarfon, yn ychwanegu at y wybodaeth, ac yn cysylltu'r ardal unwaith eto â Lerpwl. Mae'n adrodd fel yr oedd cofeb arall y tu allan i Gapel Cymraeg Stanley Road, Bootle. Ddwy flynedd yn ôl dadorchuddiwyd plac y tu allan i'r adeilad i gofio mai Capel Cymraeg a fu ar un cyfnod. Bellach mae'n swyddfeydd, ond mae'r waliau allanol a'r tŵr yn union fel yr oeddent, ac y mae'r gofeb mewn cyflwr ardderchog yn yr ardd, ac enwau 26 o fechgyn Cymraeg a gollwyd o'r capel arni.

Mae Margaret Roberts yn mynd ymlaen i adrodd fel y casglwyd arian ychwanegol *'wedi codi'r gofeb, i ffurfio cronfa i brynu tŷ haf i blant Cartref Bontnewydd yn Llanfairfechan.'* Gwraig o Glwt y Bont, sef y ddiweddar Mrs Elen Myfanwy Williams, a oedd mewn gofal yno. Cred Margaret mai Penarth neu Y Benarth oedd enw'r tŷ, ac meddai, *'deuai cenhadon yno yn ystod y flwyddyn, a phlant Bontnewydd ym mis Awst i gael gwyliau ar lan y môr. Ar wal yr ystafell fwyta roedd tabled gydag enwau 209 o fechgyn o eglwysi Cymraeg Lerpwl a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Mawr.'* Tybed ble mae'r gofeb hon heddiw? Mae'n sicr fod nifer o'r enwau arni â chysylltiadau teuluol â'r fro hon.

**Copi o'r *Cymro***

Gan Mrs Helen Francis, Caer (Helen, Cilgwythwch gynt) y daeth copi o'r papur cenedlaethol, dyddiedig 29ain o Fedi 1944. Diddorol nodi fod crybwyll ynddo at rai digwyddiadau yn yr ardal hon. Ysgrifennodd John Rees Owen, Stryd Newydd, Cwm y glo, i ddisgrifio hanes Ffynnon Cegin Arthur, yn enwedig y llyfryn a'r dadansoddiad a wnaed o'r dŵr gan y meddyg, A. Wynn Williams, Llundain.

Ceir hefyd adroddiad am gynghrair bêl-droed ieuenctid Arfon yn cychwyn ddiwedd y mis gyda naw o dimau lleol yn cystadlu ynddi; dau o'r fro hon, sef Llanberis a Llanrug. Y gweddill oedd Clwb y Fenai, Caernarfon; Tryfan, Penfforddelen, Penygroes, Talysarn a Llanaelhaearn. Rhoddodd Llanberis gurfa iawn o 10 gôl i Penfforddelen, ond colli o 5 gôl i un oedd hanes Llanrug yng Nghaernarfon. Sgwn i beth ddigwyddodd am weddill y tymor, a beth tybed oedd oedran yr ieuenctid yn y gynghrair?

Bydd y copi yn cael ei drosglwyddo i ofal yr Archifdy yng Nghaernarfon.

**Atgofion am ardal y Ceunant**

O'r diwedd! Wedi ei archebu ers y llynedd, cyrhaeddodd y llyfr *Songs of Love and Songs of Longing* gan Pamela G. Williams, sef cyfrol yn adrodd hanes gohebiaeth ei rhieni yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cafodd y fam a'r pedair merch eu 'halltudio' i'r Ceunant tra roedd y tad yn gweithio yn Birmingham ac yn Llundain, ond yr oeddent yn gohebu'n ddyddiol â'i gilydd. Cadwyd yr holl lythyrau – dros dair mil ohonynt, ac y maent bellach wedi eu golygu, eu mynegeio a'u cyhoeddi'n gyfrol swmpus gan un o'r merched, Pamela.

Eisoes cysylltodd Mrs Helen Parry, Ceunant, â mi, yn adrodd ei bod yn cofio'r teulu yn byw yng Ngheunant, a'i bod hithau'n ffrindiau â'r genethod. Mae'n edrych ymlaen yn awyddus i gael benthyg copi o'r llyfr – wedi i mi gael cyfle i'w ddarllen!

**Stryd Goll yn Llanberis**

Daeth cais i law yn ystod y dyddiau cyn i'r *Eco* fynd i'r wasg yn holi ynglŷn â stryd yn Llanberis nad oes fawr ddim gwybodaeth amdani na phle'n union yn y pentref y lleolwyd hi. Yr enw arni oedd Myrtle Terrace, ac yr oedd mewn bod ganrif a mwy o flynyddoedd yn ôl. Gan i'r cais gyrraedd mor hwyr, methais â chael cyfle i chwilio cofnodion cyfrifiad 1901 ac 1891 i roi rhyw syniad o'i lleoliad, na chwaith i weld a yw'n ymddangos ar rai o fapiau cynnar yr ardal. Os oes rhywun â syniad ynglŷn â ble'n union roedd y stryd hon, a pha bryd y diflannodd, cysylltwch ar frys.

Dim lle y mis hwn i sôn am y meddyg o Lanrug mae gen i ofn, ond fe ddaw maes o law. Yn y cyfamser, cofiwch ymateb ynglŷn ag unrhyw eitem yn y golofn neu ynglŷn ag unrhyw ymholiad yn ymwneud â hanes lleol ardal bro'r 'Eco'. Cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

# PLEIDIOL WYF I'M HIAITH

Dychmygwch Eisteddfod Genedlaethol i ieithoedd y byd. Dychmygwch stondinau yn gwerthu offer cyfieithu, meddalwedd, CD'au, tapiau a llyfrau ar gyfer dysgu unrhyw iaith yr hoffech. Dychmygwch ysgolion iaith a mentrau iaith yn rhanu'r un llwyfan â phrifysgolion, llysgenhadaethau a chynrychiolwyr ieithoedd lleifarifol y byd. Croeso i *Expolangues*, Paris.

Pob blwyddyn er 1982 bellach mae ffair iaith *Expolangues* yn cael ei chynnal ym Mharis. Er mai iaith trefnu'r ŵyl 4 diwrnod hon yw'r Ffrangeg, ys dywed ei harwyddair:

*Les langues du monde, le monde des langues*

Hynny ydy, ieithoedd y byd, byd o ieithoedd.

Gan hynny, a chyda dros 21 000 o ymwelwyr rhyngwladol pob blwyddyn, dros 200 o arddangoswyr proffesiynol a 20 o wledydd yn cael eu cynrychioli, mae'r Neuadd Arddangos yn brysur droi'n Dŵr Babel. Yn wir, yn ystod y ffair ceir hyd at 60 o ieithoedd eu clywed ar wahanol lwyfanau - boed mewn darlith, mewn cyfarfod i drafod ffonemau neu y dulliau newydd o gyflwyno y *Present Perfect* i rai yn eu harddegau mewn ysgolion Ffrengig neu mewn gwers am ddim yn cael ei thraddodi gan athro/athrawes fel braslun o'i (h)iaith.

Fel athro cymwysiedig (Cymraeg, Ffrangeg, Saesneg) a golygydd profiadol yn y dair iaith hon er 1997 ym Mharis ei hun, daeth *Expolangues* i'm sylw gyntaf. Gwelais o'r cychwyn bod modd hybu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Chymru trwy gyfrwng *La Classe*. Bwth ganolog ydy *La Classe* ac fel ei phartneres, *La Kiosque de Langues*, lle ydyw lle gallwch, yng nghanol miri y darlithoedd a'r prynu a'r gwerthu, eistedd i lawr am awr gyda beiro yn eich llaw a phapur ar eich desg a cheisio cael eich pen o gwmpas ieithoedd o Almaeneg i Hebraeg, Tsieneeg i Gatalan, Lithwaneg i Rwmaneg. Ac i gyd am ddim. Wel, dyma ni meddwn i, ac fel Del Boy: *'He who dares...'*

O bethau bach felly mae pethau mawr yn medru deillio. Ym mis Ionawr 1997 rhoddais y wers Gymraeg gyntaf trwy gyfrwng y Ffrangeg yn *Expolangues*. Pethau digon hawdd i chi a fi, wrth gwrs: cyfarchion, swyddi ac ati. Ond cofiwch, nid oedd ac nid ydy'r rhan fwyaf o Ffrancwyr yn gwybod *unrhyw beth* am Gymru a'r Gymraeg – mae rhaid eu haddysgu mai nid *patois* mo'r iaith na *département* o Loegr yw ein gwlad.

Er 1997 felly, yr wyf wedi rhoi gwersi cyffelyb yn *Expolangues* yn rheolaidd ac yn dechrau cael enw i mi fy hun a'm cenedl. (Ffafriol mae rhywun yn gobeithio!) Eleni, 6 o'r gloch yr hwyr oedd hi ar nos Fercher, 18 Ionawr a chefais wyth myfyriwr brwd yn awyddus i wybod (mwy) am beth oedd y *gallois* 'na yn eu rhaglen. Ni siomwyd na nhwythau na minnau ac mae'r trefnwyr yn awyddus iawn i mi ddychwelyd y flwyddyn nesaf, pryd fydd *Expolangues* yn dathlu chwarter canrif.

Hyderaf y byddaf yn cynnal dymuniadau da trigolion bro'r Eco pan af dros y dŵr unwaith yn rhagor. Ond 'da chi – gadwch i mi wybod os oes rhywun arall a hoffai ddod gyda mi. Rwyf yn siŵr bod yna Gymry eraill allan yna a hoffai fod yn rhan o ŵyl ryngwladol ac ymfalchïo yn eu hiaith, eu traddodiadau a'u cenedl o flaen cynulleidfa ehangach na dosbarth nos o estroniaid heb unrhyw fath o ddiddordeb mewn dysgu ein hiaith.

Hawlfraint, Siôn Rees Williams LLB. (Hons.), Cert. TESOL, ACIL

23 Chwefror 2006.

(O.N. Ni noddir Siôn R. Williams am ei waith fel hyrwyddwr y Gymraeg ym Mharis (1997–2001) nac yn *Expolangues* gan unrhyw gorff Cymreig.)

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

# Band Pres Deiniolen

Cynhaliwyd cystadleuaeth Pencampwriaeth Unawdau Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Galeri, Caernarfon, dydd Sadwrn, 11 Chwefror. Cafwyd diwrnod arbennig iawn ac mae'n adeilad rhagorol i gynnal cystadleuaeth o'r fath.

Bu dau ar hugain o aelodau ieuenctid y band yn cystadlu – y mwyafrif ohonynt am y tro cyntaf – a'r ieuengaf oedd Deian Williams, sy'n 5 oed. Yr ydym yn llongyfarch pob un ohonynt am roi perfformiad ardderchog a chael canlyniadau da iawn.

Derbyniodd y pedwar aelod dan 10 oed Dystysgrif gyda chlod. Yn yr Adran dan 10 oed, enillwyd y wobr gyntaf gan Manon Elwyn gyda 97 o farciau ac aeth y drydedd wobr, gyda 93 o farciau, i Tudur Williams. Yn yr Adran dan 14 oed, Daniel Ellis oedd yn fuddugol gyda 94 o farciau, a'r ail wobr i Cai Jones gyda 93 marc. Yn yr Adran Agored daeth Dylan Hughes yn ail gyda 95 o farciau mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn.

Mae'r Pwyllgor yn diolch o galon i Jenni Lyn am ddysgu'r plant i gyd ar gyfer y gystadleuaeth yma a hefyd i Lois Eifion am gyfeilio i bob un ohonynt yn ogystal â chystadlu ei hun hefyd.

Ar hyn o bryd mae'r Band yn brysur yn ymarfer ar gyfer Pencampwriaeth Cymru yn Abertawe ar 18 Mawrth, ac hefyd yn edrych ymlaen at recordio eu hail gryno ddisg yn ystod y flwyddyn.

Fe gynhelir Pwyllgor Blynyddol y Band nos Sul nesaf, 26 Chwefror, am 6.00 o'r gloch yn yr Hen Felin. Croeso cynnes i bawb.


GORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed: Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Gwaith Plymio a Gwres Canolog
Dafydd Williams
(Rhiwlas)
01248 353815
Symudol:
07887 525118
Trin a Thrwsio Boileri
Tanwydd olew
Gwasanaeth lleol dibynadwy a da
CORGI
ac OFTEC

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?
YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi ); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
( i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055



Tîm buddugol Twrnament Pêl-rwyd Arfon – genod blwyddyn 6.



Claire, Beth, Rhodri a Dafydd o Ysgol Syr Hugh Owen yn rhoi gwersi pêl-droed i flwyddyn 6.

# WAUNFAWR

**Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570**

Y CLWB 300. Dyma restr o'r enillwyr am fis Ionawr: £40: Mr Norman Williams, Llidiart Wen; £25: Mrs N. Huws Roberts, Bodrida; £10: Ms Jeanette Burden, 4 Dolerddi.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror o'r Sefydliad yn Festri Eglwys y Waun. Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Lyn Garlick o Ambiwlans Awyr Cymru a chafwyd sgwrs ganddi yn egluro sut yr oedd y gwasanaeth yn cael ei redeg. Pwysleidiodd y ffaith ei bod yn bwysig iawn i gymaint ag sy'n bosibl ymuno â'r Loteri Achub Bywyd. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu agor siop yng Nghaernarfon ymhen ychydig ac apeliodd am aelodau i helpu yno ac fe wirfoddolodd nifer dda. Diolchodd y Llywydd i Mrs Garlick.

Enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Rosemary Bracegridle, gan Catherine. Bydd y cyfarfod nesaf ar 2 Mawrth, pryd y bydd rhai o blant yr ysgol yn dod i ddathlu Gŵyl Dewi gyda'r aelodau. Croeso cynnes i aelodau newydd.

DYWEDDÏAD. Dymunwn yn dda i Sian Williams, Plas Bodhyfryd ar ei dyweddïad â Steven Parry o Gaernarfon.

PRIODASAU. Ym Mhatagonia, fe briodwyd Heddus Gwynedd, Nant, â Luis, bachgen o wlad Patagonia.

Yng ngwesty Craig y Nos, Aberhonddu, priodwyd Kevin Tame â Bethan. Maent yn ymgartrefu yng Nghaerdydd. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau bâr ifanc.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Gwenlli Williams, Ardwyn; Mrs Peggy Jones, Llechwedd; Mr John Dawson, Stad Bro Waun a Mr Cyril Smith, Rhoslan, sydd yn yr ysbyty.

CROESO ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mrs Jeni Jones, Glyn Ceris, a Mr Eurwyn Williams, Parc, adref o'r ysbyty. Dymunwn wellhad buan i'r ddau ohonoch.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Sian Thomas, Ysgoldy, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Megan Williams, Tref Eilian, sydd wedi mynd i aros i Gartref Nyrsio yn Nhremadog. Ei merch, Jill, yw rheolwraig y Cartref.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Yn eu cyfarfod diwethaf, mwynhaodd aelodau'r Gymdeithas sgwrs ddiddorol am wahanol feddyginiaethau yng nghwmni'r Dr Berwyn Owen.

Y ciropodist, Mr William Vaughan Jones, fydd yn sgwrsio yn y cyfarfod nesaf at 13 Mawrth. 'O Bant Cae Du i'r Caruboo' fydd testun ei sgwrs.

YR URDD. Dymunwn yn dda i aelodau'r Urdd fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail, dydd Sadwrn, 4 Mawrth.

GWELD BREUDDWYD' Bydd y bardd, Mererid Hopwood, yn cadw noson yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30 yh. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd. I sicrhau tocynnau (£4 yn cynnwys gwydraid o win a lluniaeth ysgafn) cysylltwch â Sian Davies (01248 670685), Edwina Morris (01248 670407) neu Alys Jones (01248 670140).

YSGOL WAUNFAWR

Croesawn Miss Lowri Fretwell atom tra bod Anti Tracy'n sâl. Gobeithio ei bod yn teimlo'n gartrefol yn ein mysg. Dymunwn yn dda hefyd i Miss Gillian Williams sydd wedi bod ar Ymarfer Dysgu am gyfnod o chwe wythnos yn nosbarth Miss Roberts. Pob lwc i'r dyfodol, Gillian, a mawr ddiolch am gynorthwyo gyda'r pêl-rwyd.

**Pêl-rwyd.** Bu tîm pêl-rwyd genethod blwyddyn 6 yn cystadlu yn Nhwrnament Ysgolion Arfon ddechrau'r mis. Dyma adroddiad Anya:

*Dydd Mercher yr 8fed o Chwefror codais i a gweddill merched y tîm pêl-rwyd sef, fi Anya, Catrin, Sioned Hannah, Gwenan, Hanna a Shona yn gynnar iawn i fod yn yr ysgol erbyn hanner awr wedi wyth. Wedi i bawb gyrraedd aeth Mrs Parry, Miss Gillian Williams a Miss Morris â ni i Blas Silyn ym Mhenygroes.*

*Ein gêm gyntaf oedd yn erbyn Llanrug ond collom ni 4 gôl i 1 yn eu herbyn. Chwaraeom yn erbyn ysgol Bro Lleu wedyn a ni sgoriodd 4 gôl ac ennill. Enillom ni Ysgol Rhostryfan o 11 gôl i ddim, Hwrê! ac wedyn ennill yn erbyn Ysgol y Gelli. Dydan ni erioed wedi curo Gelli o'r blaen. Fe sgorion 18 o goliau i gyd. WAW!*

*Cawsom fynd ymlaen i Dwrnament Ysgolion Eryri ddiwedd y mis gan ein bod wedi dod yn gyntaf yn ein grŵp. Roedden ni wedi gwirioni, dydi Ysgol Waunfawr erioed wedi gwneud hyn o'r blaen. Prynsom lwythi o dda das i fynd yn ôl i'r ysgol. Diwrnod gret!*

**Twrnament Ysgolion Eryri.**

Llongyfarchiadau mawr i enethod blwyddyn 6 am ddod yn ail yn Nhwrnament Pêl-rwyd Ysgolion Eryri. Ffantastig, genod. Da iawn chi!

Adroddiad y tîm:

*Cyrhaeddodd y bws am 12.00 o'r gloch bore dydd Mercher, Chwefror y 15fed. Aeth y bws â ni i Brifysgol Bangor i chwarae yn Nhwrnament Pêl-rwyd Ysgolion Eryri. Roeddym i gyd yn crynu yn ein sgidiau pan welson ni pa mor dal a da oedd chwaraewyr y timau eraill.*

*Ond sgôr y gêm gyntaf oedd 3–3 yn erbyn Towyn. Ein hail gêm oedd yn erbyn Bethel ac fe enillom ni o 4 gôl i 1. Wedyn roedd hi'n 4 gôl i 0 yn erbyn Edern. Felly roedd gan ein tîm ni a thîm Towyn yr un sgôr ac roeddym yn gorfod chwarae eto yn eu herbyn a phwy bynnag oedd yn cael y gôl gyntaf oedd yn mynd i'r rownd derfynol.*

*Choeliwch chi byth, ni gafodd y gôl gyntaf! Ffantastig ac roedden ni yn y gêm derfynol!*

*Roedden ni yn chwarae yn erbyn Ysgol Lyndon. Nhw oedd enillwyr y llynedd. Yn anffodus roedden ni yn gorfod newid safleoedd a doedden ni ddim cystal yn y gêm derfynol. Ail ddaeth ein tîm ni ond roedden ni wedi gwirioni ein bod wedi gwneud cystal ac wedi mynd i'r rownd olaf. Fysan ni ddim wedi llwyddo heb help Miss Gillian Williams, Miss Mandy Roberts a Mrs Sioned Parry, felly diolch yn fawr iddyn nhw eu tair.*

Shona, Elin, Gwenan, Sioned, Anya, Catrin , Hannah, Hanna, Rosie.

**Disgyblion o Ysgol Syr Hugh**

Hoffem ddiolch i Clare, Beth, Rhodri a Dafydd – tri ohonynt yn gyn-ddisgyblion o'r ysgol – am roi gwersi sgiliau pêl-droed i flwyddyn 6 am y tair wythnos ddiwethaf. Bu'n brofiad gwerth chweil i'r plant a phawb wedi mwynhau.

**Artist Preswyl.** Dros y deufis diwethaf bu'r artist, Heather Lowe, yn gwehyddu gyda disgyblion blwyddyn 5 a 4. Diolch i bawb a anfonodd ddeunyddiau i'r ysgol. Bydd y gwaith gorffenedig yn werth ei weld ac mae'r plant wedi cael profiadau gwych yn datblygu sgiliau gwahanol ac amrywiol.

Y prosiect nesaf fydd creu mosaic teils o logo'r ysgol i'w osod yn yr ardd. Os oes gan unrhyw un yn y pentref deils sbâr, unrhyw liw, patrymog neu blaen, hyd yn oed rhai wedi torri, byddem yn ddiolchgar iawn o'u derbyn.

**Sefydliad y Merched.** Mae côr yr ysgol yn edrych ymlaen i ddiddanu aelodau Sefydliad y Merched yn festri Capel Croes-y-Waun, ddydd Iau, 2 Mawrth. Mae'r te bach ar y diwedd yn apelio'n fawr!

**Eisteddfod yr Urdd.** Dymunwn yn dda i aelodau'r Urdd fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Mrynrefail ddydd Sadwrn, 4 Mawrth. Pob lwc i chwi i gyd.


**R. L. DAVIES**

Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB *Fastracs a trailers* 16 tunnell *diggers* bychain ac *excavators* 360° newydda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu *footings*
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

**(01248) 671300** neu **(07775) 638620**

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Chwefror o Dynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro oedd: £40: (2) P. Evison, Cae Hopcyn; £25: (5) Williams, Castellmai; £15: (113) Dennis Ratcliffe, Tddyn Cae; £5: (56) Alan Griffiths, 6 Rhes Glangwna.

TREFNU BLODAU. Y mae yna yng Nghaeathro gyfle gwych i rywun ddysgu neu wella'r grefft o osod blodau ar gyfer gwasanaethau crefyddol. Mae Dilys Griffiths, Delfryn, wedi bod yn drefnydd penigamp ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, erbyn rŵan mae hi'n chwilio am gynorthwy-ydd. Gofynnir i'r sawl sydd â diddordeb gysylltu â hi neu unrhyw swyddog y Capel.

CAPEL CAEATHRO. Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor MNeddiannau am 7.30 yh nos Iau, 16 Mawrth yng Nghanolfan y Capel.

BABI NEWYDD. Croeso mawr i Iwan Thomas, mab Nicky a Jonni Morris, Bryn y Gof, ar ei enedigaeth ddiwedd mis Ionawr, brawd bach i Bryn a Dewi.

POBL IFANC DISGLAIR. Mae pobl ifanc y pentref unwaith eto wedi dangos eu talentau.

Yn ystod ymweliad â Nant Gwrtheyrn, holodd cyflwynydd Radio Cymru Hywel a Llŷr, Erw Wen, ar ran Ysgol Bontnewydd, am hanes Santes Dwynwen. Yn wir roedd ail-ddarlleniad fel pigion yr wythnos ar Radio Cymru.

Mae tîm pêl-rwyd Adran yr Urdd, Ysgol Bontnewydd, wedi ennill eu ffordd drwodd i'r rowndiau terfynol yn Aberystwyth. O'r saith yn y tîm, mae pump ohonynt yn dod o Gaeathro: Lowri, Gwen, Gwion, Bethany ac Aled. Da iawn!

Pwy sy'n cofio grŵp pop Cymraeg or enw 'Ficar' a ddechreuodd ymarfer yn Ystafell yr Eglwys yma yng Nghaeathro. Erbyn heddiw mae Owain, Jac, Daniel a Rhodri (o Lanfairisgaer) yn brysur yn ymarfer yng Nghanolfan y Capel, ac wedi cynnal eu perfformiad cyhoeddus cyntaf. Pwy fydd yn dweud eu bod nhw'n cofio dechreuad grŵp pop Cymraeg o'r enw 'Rebellion' tybed?

SWYDD NEWYDD. Llongyfarchiadau i Ann Hughes, Erw Wen, ar ei phenodiad hi, ers dechrau mis Ionawr, fel Dirprwy Bennaeth Ysgol y Garnedd, Bangor.

ADDYSG GRISTNOGOL. Oherwydd llwyddiant yr Ysgol Sul yng Nghanolfan yu Capel pob dydd Sul am 11.00 y bore, mae 'na wir angen i rywun 'gyd-lynnu a 'datblygu' y gwaith ardderchog sy'n cael ei gynhyrchu trwy ymdrechion da athrawon yr Ysgol Sul. Gellir trafod y swyddogaethau ac adnoddau gydag unrhyw un sy'n fodlon derbyn yr her. I drafod y cyfleoedd, cysylltwch â Clive James, Hafan.

ATODIAD V. Roedd Hannah Hughes, Llyngele, yn un o genod y mis yn rhifyn mis Chwefror o atodiad pobl ifanc i'r cylchgrawn *Golwg*. Tudalen ddiddorol iawn i'w darllen.

PEN-BLWYDD HAPUS. Llongyfarchiadau i Norman Hughes, Llyngele, ar ei ben-blwydd yn 40 oed ddechrau'r mis. Cyfle am w^yl yng nghaer!

APÊL AMBIWLANS AWYR GOGLEDD CYMRU. Diolch i nifer o ymdrechion mae cyfanswm casgliad Caeathro tuag at gostau blynyddol rhedeg Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru wedi cau gyda'r swm o £100. Cyflwynwyd siec i Haf Thomas ar ran y rhoddwyr.

PAFIN NEWYDD. Llongyfarchiadau i Cadwaladr Evans., Llecyn Clyd, am berswadio Cyngor Gwynedd i ddarparu pafin concrit rhwng Llwyn Celyn a Hen Gapel.

CLWB MERCHED CAEATHRO. Ym mis Rhagfyr aeth aelodau'r Clwb i ddathlu'r Nadolig yn y Galeri, Caernarfon, lle mwynhaodd pawb wledd flasus dros ben.


Yng nghyfarfod mis Ionawr cafwyd noson hwyliog o ddawnsio llinell yng nghwmni Mrs Brenda Williams, Y Groeslon. Enillwyd y raffl gan Mrs Brenda Williams. Mrs Heather Jones fu'n gyfrifol am wneud y te.

CWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol yn Ebrill a Mawrth:

5: 10.00 Parch Emrys Thomas
11.00: Ysgol Sul
12: 11.00: Ysgol Sul
19: 10.00 Mr Huw Jones
11.00: Ysgol Sul
26: 11.00: Ysgol Sul

Ebrill 2: 11.00: Mr Dafydd Iwan a gwasanaeth arbennig i aelodau'r Ysgol Sul, eu rhieni, a phawb arall hefyd!

GWELD BREUDDWYD' Bydd y bardd, Mererid Hopwood, yn cadw noson yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30 yh. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd. I sicrhau tocynnau (£4 yn cynnwys gwydraid o win a lluniaeth ysgafn) cysylltwch â Sian Davies (01248 670685), Edwina Morris (01248 670407) neu Alys Jones (01248 670140).


I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr PORTHAETHWY**

Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR**
Ffôn/Ffacs: **(01286) 650291**

**Ar Agor**
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
**Ar Gau**
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO MOCHYN**
AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk

**TAFARN BRYNGWNA**
**Caeathro**

Croeso mawr i bawb i'r 'Bryngwna' yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref, yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen.

*Cinio dydd Sul*
*a byrbrydau ar gael*

Ffoniwch (01286) 674568 i gadw bwrdd neu archebu ymlaen llaw



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad

**Etholaeth Caernarfon**

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:
**Swyddfa Etholaeth**
**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

DYMUNA Elizabeth Evans, Pen Parc, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd yn ystod ei gwaeledd ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL. Llongyfarchiadau i Richard Llwyd Jones am gipio cadair Eisteddfod Llanegryn yn ddiweddar. Dyfarnwyd y gadair am gerdd gaeth ar y testun 'Lleisiau'. Y beirniad oedd y Prifardd Tudur Dylan Jones. Nid oes unrhyw wir yn yr honiad fod danfon Mary i Seland Newydd am fis wedi cyfrannu at y llwyddiant!

DIOLCH. Dymuna Mrs Sheila Roberts, Tan y Buarth, ddiolch o galon am bob dymuniad da a chymorth yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gobowen.

DIOLCH. Dymuna Mrs Anne Elis ddiolch o galon i rieni, Llywodraethwyr ac yn arbennig i staff a disgyblion yr ysgol am y dymuniadau da, y geiriau caredig a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad (yn gynnar) o'r ysgol. Bu ei chyfnod yno yn eithriadol o hapus a bydd yn parhau i gefnogi'r ysgol fel aelod o'r Corff Llywodraethu.

NEUADD GOFFA. ENILLWYR Y CLWB 200.
*Tachwedd:* £50: (10) Huw Williams, Cefn Gwyn; £25: (29) Gwyneth Price, 33 Bro Eglwys; £10: (167) Idris Rees, 6 Y Rhos.
*Rhagfyr:* £50: (63) Iorwerth Williams, Cilcain; £25: (120) Ellen Ellis, 5 Rhoslan; £10: (15) Mair Williams, 15 Y Ddôl.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yn Festri Bethel gyda Goronwy Jones yn llywyddu. Croesawyd pawb ynghyd a dymunwyd yn dda i Trefor Williams, Gwilym Roberts ac Elizabeth Evans, y tri wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Un o blant Bethel oedd y wraig wadd, sef Mrs Helen Jones, Caernarfon. Cychwynnodd ei sgwrs gan ddweud pa mor falch yr oedd hi bod yr Eisteddfod yn dal ymlaen yma ym Methel ac yna aeth i sôn am yr Eisteddfod gyntaf yn yr ardal, sef 'Cyfarfod Cystadleuol Llenyddol Bethel, Saron a'r Cysegr' yn y flwyddyn 1867. Difyr iawn hefyd oedd gwrando arni yn disgrifio yr holl fusnesau lleol oedd ar gael, ac hefyd y ffordd o fyw yn y cyfnod dan sylw.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Mrs Helen Jones gan Jenkin Griffiths, a chafwyd gair ymehllach o werthfawrogiad gan y Prifardd Selwyn Griffith.

EISTEDDFOD. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Eisteddfod y pentref yn ddiweddar ac etholwyd y canlynol yn swyddogion am eleni: Llywydd: Glenys Griffiths; Is-Lywydd: Rita Williams; Ysgrifennydd: Rhian Hughes; Is-Ysgrifennydd: Enid Huws; Trysorydd: Gwyneth Jones; Is-Drysorydd: Nan Jones; Ysgrifennydd Dawnsio: Sian Harris; Swyddog y Wasg: Glenys Griffiths; Ysgrifennydd Tariannau: Nora Parry; Ysgrifennydd Celf; Manon Griffiths. Penderfynwyd cynnal yr Eisteddfod eleni ar ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd, gyda'r noson Ddawns nos Fawrth cynt, sef 14 Tachwedd.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Y mae'n syndod cyn gymaint o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail sydd erbyn hyn yn aelodau o grwpiau roc blaenllaw Cymru. Daeth cryn lwyddiant i'r grŵp 'Radio Luxembourg' yng ngŵyl Gwobrau Roc Radio Cymru yn Llandudno. Enwebwyd y grŵp, sydd wedi ei leoli yn ardal Aberystwyth, am bedair gwobr, a daeth llwyddiant mewn tri chategori. Y mae'r grŵp eisoes wedi rhyddhau CD gyda chân fwyaf poblogaidd y flwyddyn, 'Lisa, Magic a porfa'. Y mae dau o'r aelodau yn dod o Fethel, sef Rhys Lloyd Jones ac Alun Gaffey. Mae si fod CD arall i'r rhyddhau yn y dyfodol agos.

Grŵp arall poblogaidd o'r ardal yw Vanta, a byddant hwy yn cefnogi Bryn Fôn mewn cyngerdd draw yn Nulyn yn ystod penwythnos y gêm rygbi.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Braf oedd cael croesawu un o hogiau Bethel i annerch yr aelodau yng nghyfarfod mis Chwefror. Y gŵr gwadd oedd y Prifardd Selwyn Griffith, ac yn dilyn gair o groeso gan y Llywydd, Jenkin Griffiths, cafwyd sgwrs hwyliog ac ysgafn yn dwyn y teitl 'Cymeriadau'. Soniodd am ddiniwweidrwydd a naturioldeb plant tra bu'n athro ysgol, yna aeth i sôn am ffraethineb cymeriadau ym myd pêl-droed, ac yn olaf cyfeiriodd at gyfeillgarwch nifer o bersonau roedd wedi dod ar eu traws tra'n crwydro o Eisteddfod i Eisteddfod dros y blynyddoedd. Dyfynnodd o nifer o enghreifftiau o'i farddoniaeth ble roedd y cymeriadau y soniwyd amdanynt wedi dod yn rhan o'i gerddi. Roedd ymateb y gynulleidfa i'w sgwrs yn gynnes iawn a chafwyd cyfle sawl gwaith i wenu a chwerthin. Talwyd y diolchiadau am noson arbennig gan Richard Lloyd Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 21 Mawrth yng nghwmni Dr W. Gwyn Lewis, Caernarfon.

'GWELD BREUDDWYD' Bydd y bardd, Mererid Hopwood, yn cadw noson yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30 yh. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd. I sicrhau tocynnau (£4 yn cynnwys gwydraid o win a lluniaeth ysgafn) cysylltwch â Sian Davies (01248 670685), Edwina Morris (01248 670407) neu Alys Jones (01248 670140).

DIOLCH. Dymuna Mrs Jean Jones, Wenallt, ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd a haelioni yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Dafydd a Beryl Parry, Hafod Elen, Saron, ar ddathlu eu Priodas Aur ar 31 Mawrth.

LLONGYFARCHIADAU i Gethin Williams, Arfon House, a Leanne Warrington o Fangor ar eu dyweddïad.

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen nos Fercher, 8 Chwefror, yn yr ysgol Gynradd. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a dymunwyd gwellhad buan i Elizabeth Evans a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Gwraig wadd y noson oedd Lisa Spaull, dawnswraig gyda Dawns Gogledd-ddwyrain Cymru. Cafwyd noson egnïol a hwyliog yn ei chwmni yn dysgu dawnsio llinell. Ar ôl y dawnsio mwynhawyd paned a baratowyd gan Sharon Owen, Ann Lewis a Lynnwen Morris. Diolchwyd i Lisa Spaull gan Sian Davies. Enillydd y raffl oedd Delyth Williams.

Nos Fercher, 8 Mawrth, bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio yn Nhafarn yr Afr, Glandwyfach, yng nghwmni Bethan Gwanas.

Bydd hefyd noson arbennig, sy'n agored i'r cyhoeddi, yng nghwmni Mererid Hopwood ar nos Iau, 23 Mawrth am 7.30 yn neuadd y pentref.

ADRAN YR URDD. Cynhelir Cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi gan blant yr Adran a'r Uwch Adran nos Fercher, 1 Mawrth, yn y Neuadd Goffa am 6.30 o'r gloch. Mae croeso i rieni, ffrindiau a thrigolion y pentref ddod i fwynhau'r talentau lleol. Codir tâl mynediad o £2 i oedolion a bydd elw'r noson yn mynd tuag at Ysgol Pendalar.

Mae'r aelodau yn hynod o brysur ar hyn o bryd yn ymarfer ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Pob lwc i bawb o'r Adran fydd yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod Cylch ym Mrynrefail dydd Sadwrn, 4 Mawrth ac hefyd yn yr Eisteddfod Dawnsio Disgo ar nos Iau, 16 Mawrth. Mae unigolion a phartïon yn cystadlu.

Aeth Gethin Jones i'r Gala Nofio Cenedlaethol yn Abertawe ar ddiwedd mis Ionawr a rhaid ei longyfarch an wneud mor dda. Llwyddodd i ennill ei le yn y ras derfynol a dod yn seithfed drwy Gymru gyfan. Ardderchog wir!

Mwynhaodd dros 50 o blant eu hunain yn Yr Hwylfan nos Fercher, 8 Chwefror. Diolch i'r rhai fu'n cynorthwyo ar y noson

UWCH ADRAN YR URDD. Aeth 2 dîm pêl-droed bechgyn a thîm pêl-droed merched i dwrnament Uwch Adrannau ym Mhen-y-groes ar nos Iau, 26 Ionawr. Roedd timau o Uwch Adrannau Bangor a Gwrtheyrn yn cymryd rhan ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw.

Bydd parti deulais o'r Uwch Adran yn cystadlu yn yr Eisteddfod dan 15 nos Fercher, 8 Mawrth, yn ogystal â sawl unigolyn. Pob lwc i chwi i gyd.

## DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

MERCHED Y WAWR. Nos Lun, 20 Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn Nhŷ Elidir. Cafwyd gwybodaeth am amryw o ddigwyddiadau a gynhelir yn y gwanwyn. Cyflwynwyd y gŵr gwadd, sef Mr Huw Jones, Llanwnda, gan y Llywydd, Marian Williams.

Soniodd wrthym am y newidiadau sydd ar fin digwydd yn llythyrdai'r wlad a chawsom wybodaeth fuddiol iawn ganddo.

Yna, cawsom gwis hwyl, gyda'r holl atebion yn cyfleu enw rhywbeth da i'w fwyta. Roedd pedwar tîm a chafwyd noson hwyliog. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Ann Lloyd.

DIOLCH. Dymuna Betty Lloyd Roberts, 6 Bro Deiniol, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty'n ddiweddar, ac hefyd ar ôl dod adref.

Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Mrs Hughes, 1 Y Bwthyn, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar ôl iddi golli ei hannwyl ŵr, Johnny Hughes, yn hynod o sydyn yn 92 mlwydd oed. Mae'r golled yn fawr ar ei ôl.

Dymuna Mrs Hughes ddiolch yn fawr i'w theulu a ffrindiau, yn bell ac agos, am eu caredigrwydd. Diolch hefyd i Mr Pritchard am ei eiriau caredig ac hefyd i Mr Gwynfor Jones am drefnu'n ofalus. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Siân Tomos, gynt o 97 Pentre Helen, ddiolch yn fawr iawn i drigolion yr ardal am y gefnogaeth ddiffuant a ddangoswyd iddynt fel teulu yn dilyn marwolaeth Mam, merch a chwaer annwyl iawn – Anwen Thomas. Daeth ei marwolaeth yn sydyn dros ben. Ni all geiriau ddisgrifio'r golled sydd ar ei hôl hi.

Diolch yn fawr am y rhoddion hael a dderbyniwyd. Casglwyd dros £1,500 a bydd yr arian yn mynd i Ward Beuno, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn am eich caredigrwydd.


**Dylan Griffith**

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL**

**TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd



**Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833**

**Symudol: 07778 127394**

**HEFYD**



**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**

**Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce***

ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Ffederasiwn Sefydliad y Merched yn Ysgol Brynrefail bnawn Sadwrn Chwefror 4ydd pryd y daeth tua 200 o aelodau o hanner cant o ganghennau ynghyd. Bu'n flwyddyn brysur gyda dathliad 90 mlynedd sefydlu Sefydliad y Merched a'r gweithgareddau cysylltiedig ag Eisteddfod Genedlaethol y Faenol. Trafodwyd nifer o faterion ac yn eu plith gylchgrawn newydd y sefydliad *'WI Life'* fydd yn ymddangos yn Chwefror 2007 fel rhan o'r tansygrifiad blynyddol. Lansiwyd hefyd 'Prosiect y Fesen' pryd y rhoddir £5 i bob cangen i ddechrau gweithgaredd codi arian gyda hanner yr elw yn dod i'r gangen leol.

Cangen Brynrefail a'r Waunfawr oedd y gwesteion yn y Cyfarfod Blynyddol eleni ac estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod ar eu rhan gan Lywydd Sefydliad Brynrefail, Pat Jones. Cyfeiriodd yn ei chyflwyniad at y ffaith fod cangen Brynrefail bellach yn cyfarfod yn y Ganolfan Grefftau ar safle hen Ysgol Brynrefail. Aelodau y ddwy gangen fu'n paratoi y lluniaeth a threfnwyd y ddau arddangosiad blodau hardd gan Pat Jones. Derbyniodd cangen Brynrefail wobr arbennig am gynyddu nifer yr aelodaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Diolchwyd i Lowri Roberts Williams a wahoddwyd i gyfeilio yn yr anthemau ar ddechrau a diwedd y cyfarfod ac i gloi mwynhaodd pawb yn fawr gyflwyniad cerddorol Band Ieuenctid Llanrug.

Nos Iau, Chwefror 16eg cyfarfu'r gangen leol yn y Ganolfan. Daeth Pat Turner a Maga o Lanberis i arddangos Tŷ Dol Tuduraidd – crefftwaith arbennig iawn ynghyd â nifer o eitemau diddorol eraill perthnasol. Carol Houston ac Eirlys Williams oedd yn gofalu am y lluniaeth a Valmai Owen enillodd wobr y mis, rhoddedig gan Carol Houston.

Y cinio Gŵyl Ddewi yn Fferm Plas Tirion fydd y cyfarfyddiad nesaf pryd y disgwylir Berwyn Owen fel gŵr gwadd.

DIOLCH. Dymuna Gwilym a'r teulu, Llwyncoed Bach, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Betty Owen. Diolch i'r Cymorth Cartref am eu gofal ar hyd y blynyddoedd ac i'r meddygon a'r nyrsus. Diolch hefyd am y cardiau a'r rhoddion tuag at Gartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, ac am wasanaeth Y Parchg. John Pritchard ddydd yr angladd ac i Gwynfor Jones am y trefniadau.

PROFEDIGAETH. Ar Chwefror 1af bu farw Mrs Jennie Maxwell (gynt o Fro Dawel) yng Nghartref Nyrsio Plas Rhosnesni, Wrecsam, yn 93 mlwydd oed. Yn enedigol o'r Fachwen, symudodd ei theulu yn gynnar i Tŷ Coch, Brynrefail. Yn dilyn ei phriodas â Hughie Maxwell symudodd i 5 Tai Orwig. Ym Mro Dawel y bu am y cyfnod helaethaf a hynny bron hyd ddiwedd ei hoes, cyn treulio cyfnodau gyda'i merch Dilys yng Nghaer. Yn ei marwolaeth mae'r pentref unwaith eto wedi colli un o'r cymeriadau hynny fu'n rhan annatod o'r gymdeithas am flynyddoedd lawer.

Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mercher, Chwefror 8fed, gyda'r Parch R. Cledwyn Williams, Llanfaelog, yn gwasanaethu.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Dilys ei merch a'i dwy chwaer, Maggie Williams a Mair Hughes, a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD
OEDFAON CHWEFROR.
Yn yr oedfa fore Sul, Chwefror 5ed, cyfeiriodd llywydd y mis, Lowri Roberts Williams, at farwolaeth yr aelod hynaf ac un a fu'n ffyddlon i'r Achos am gyfnod maith, sef y ddiweddar Jennie Maxwell, Bro Dawel, gan estyn cydymdeimlad â'i merch, Dilys, a'i chwiorydd, Maggie a Mair, yn eu profedigaeth.

Nos Sul, Chwefror 12fed cafwyd oedfa fendithiol pryd y gweinyddwyd y Cymun dan arweiniad y Parch Marcus Wyn Robinson. Anfonwyd cofion a dymuniadau da am wellhad buan yn yr oedfa nos Sul, Chwefror 19eg, i Geraint Morris a oedd wedi cyfarfod â damwain bur ddrwg yn ystod yr wythnos tra wrth ei waith ym Mecws Cwmyglo.

CYRSIAU. Yn ystod yr wythnosau hyn mae tri chwrs cyd-enwadol wedi cael eu trefnu mewn gwahanol ardaloedd yn yr Henaduriaeth. Mynychwyd dau o'r cyfarfodydd eisoes yn Eglwys Berea Newydd Bangor gan aelodau o'r Eglwys. Mae'r cyrsiau yn ymdrin ag Adfywio Addoliad, Meithrin Arweinwyr a Gwasanaethu drwy dystio. Yr Athro Euros Wyn Jones, cydlynydd hyfforddi Undeb yr Annibynwyr, a'r Parchg. Ddr. Elwyn Richards, Swyddog Hyfforddi yr Eglwys Bresbyteraidd sydd yng ngofal y cyrsiau.

PASIANT CYMDEITHAS Y GRONYN GWENITH. Cynhelir y Pasiant Blynyddol yn ystod yr wythnos Ebrill 3ydd–8fed. Eleni ceir portread llwyfan o David Ellis, mab Penyfed, Llangwm – bardd a gollwyd. Yr awdur yw y Parch Harri Parri. Bydd Gwyn Hefin Jones, ar ran yr Eglwys, yn trefnu ymweliad â Theatr Seilo, Caernarfon.

OEDFAON MAWRTH 2006
- 5: Mr Maldwyn Thomas, Bangor am 10.00
- 12: Parch D. John Pritchard, Llanberis am 2.00
- 19: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel am 5.30
- 26: Parch Emrys Thomas, Caernarfon am 10.00

GWELD BREUDDWYD' Bydd y bardd, Mererid Hopwood, yn cadw noson yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30 yh. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd. I sicrhau tocynnau (£4 yn cynnwys gwydraid o win a lluniaeth ysgafn) cysylltwch â Sian Davies (01248 670685), Edwina Morris (01248 670407) neu Alys Jones (01248 670140).



GWERTHFAWROGI GOLYGFA.
Bu i hysbysfwrdd a osodwyd rai blynyddoedd yn ôl ger Pont Penllyn, ac a oedd o gymorth i ymwelwyr i werthfawrogi'r olygfa wych a geir o Eryri, gael ei ddifwyno. Yn fuan wedyn fe'i tynnwyd i lawr ac roedd llawer un yn gofidio o weld ei le yn wag. Erbyn hyn mae panel gwybodaeth newydd sbon wedi ei osod ar yr un safle gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae wedi ei lunio o efydd wedi ei gastio ar ffurf tri dimensiwn gan y crefftwr, Andrew Coomber, o Sir Fflint. Mae'r olygfa ar draws Llyn Padarn wedi denu llawer i arlunydd ond mae'r panel hwn o grefftwaith unigryw yn galluogi unrhyw un i redeg eu bysedd dros y creigiau a'r dyffrynnoedd tra'n syllu arnynt. Mae'n cynnwys hefyd ddarnau o farddoniaeth gan Iwan Llwyd a Gillian Clarke, wedi eu comisiynu yn arbennig, ynghyd â gwybodaeth am blanhigion prin yr ucheldir.

**Creiriau**

Drwy'r oesau gwyn, cyn bod co'
fe fu'r rhewlif yn llifio
haenau o greigiau a gro


i adael llethrau llwydion
a dôl las yr ardal hon
yn goed a chwedlau Gwydion

yn stomp, ac o'r rhewgell daeth stôr
werthfawr o redyn a thormaen
porffor
yn damaid o liw hen dymor:

a thra bo iaith, a thra bydd
'na rew, daw bywyd newydd
i'r Wyddfa ar derfyn dydd.

IWAN LLWYD


**Gosodwr Teils**
Arbenigwr mewn waliau a lloriau
Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser
Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

CARPEDI GERAINT OWEN
GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

# Ysgol Brynrefail

## Hoci



*Y tîm hoci.*

Llongyfarchiadau i dîm hoci dan 16 yr ysgol a fu'n cynrychioli Arfon yn Nhwrnament Eryri yn ddiweddar. Cawsant gêm gyfartal yn erbyn Ysgol Gyfun Llangefni; colli o 0–1 yn erbyn Ysgol Botwnnog ac o 0–3 yn erbyn Ysgol Uwchradd Eirias. Tîm ifanc iawn oedd gan Brynrefail ac felly edrychwn ymlaen at weld eu datblygiad erbyn y flwyddyn nesaf.

## Pêl-droed – Cwpan Cymru

Llongyfarchiadau i dîm bechgyn Blwyddyn 7 ar ennill eu lle yn rownd gyn-derfynol Cwpan Cymru trwy drechu Ysgol Prestatyn o 4 gôl i 3 yn gyntaf ac yna Ysgol Eirias o 7 gôl i 1 yn rownd yr 8 olaf. Llwyddodd Jamie Mcdaid i sgorio 3 a Mathew Edwards un gôl i sicrhau'r fuddugoliaeth yn erbyn Prestatyn ac yna 3 gôl arall i Jamie yn erbyn Eirias a gôl bob un i Jamie Stevens, Sion Kyle a Gruffudd John.

## Traws Gwlad

Cafodd rhedwyr o'r ysgol ganlyniadau ardderchog yng Nghystadlaethau Traws Gwlad Eryri a gynhaliwyd yn Nolgellau ar ddydd Mawrth, 7 Chwefror. Dyma'r canlyniadau:

*Genethod Blwyddyn 7*
Einir Evans: 1af;
Gwenno Gibbard: 8fed;
Hannah Hellfield: 11eg.

*Bechgyn Blwyddyn 7:*
Owain Llyr James: 3ydd.

*Genethod Blynyddoedd 8 a 9:*
Victoria Taylor: 2il;
Sharron Hanks: 8fed.

*Bechgyn Blynyddoedd 8 a 9:*
Llion Jones: 7fed;
Ezra Warren: 13eg.

Fe fydd Einir, Gwenno, Owain, Victoria, Sharron a Llion yn mynd ymlaen i gynrychioli Eryri yng Ngystadlaethau Cymru yn Aberhonddu ar 18 Mawrth. Pob dymuniad da iddynt.



*Y garfan Traws Gwlad.*

## Llyfrau Sy'n Taro Deg

A hithu'n frwydr barhaol i gael disgyblion i ddarllen ar eu liwt eu hunain y dyddiau hyn, braf oedd cael croesawu Cwmni Theatr Arad Goch i'r Adran Gymraeg i hyrwyddo darllen ymysg disgyblion blwyddyn 8. Y llyfrau dan sylw oedd *Ca Va Savana?* gan Cathryn Gwynn; *Credadyn* gan Gwion Hallam; *Sgwbidw Aur* gan Caryl Lewis a *Pen Dafad* gan Bethan Gwanas. Pa well ffordd o ddatgan barn y disgyblion ar y perfformiadau na phtyiau o lygad y ffynnon ei hun?

'Roedd y ffordd roedden nhw'n actio rhannau'r cymeriadau yn dda ac y n ddoniol iawn.'
*Rebecca Parry*

'Dwi'n meddwl fod y syniad o gael pobl i actio llyfrau allan yn dda achos mae'n dod â'r stori'n fyw.'
*Miriam Pritchard*

'Roedd gweld rhannau o'r llyfrau yn digwydd yn gwneud y cyfan yn llawer haws i'w ddeall.'
*Sharron Hanks*

'Mae defnyddio hiwmor yn ffordd dda o gael plant i ddarllen.'
*Ieuan Green*

'Roedd gweld rhannau o'r llyfrau yn gwneud i ni fod eisiau darllen gweddill y llyfr.'
*Emma Williams*

'Fy hoff lyfr i yn bendant oedd *Pen Dafad*. Rhaid i mi ei ddarllen rŵan.'
*Gwion Williams*

## Cwpan Gwynedd

Yn y rownd gyn-derfynol llwyddodd bechgyn Brynrefail i drechu tîm Ysgol Syr Hugh Owen o 7 gôl i 3. Yn sgorio y tro hwn roedd Jamie Mcdaid (2), Daniel Bell a Gruffudd John (2), a Sion Kyle.

Bu i fechgyn blwyddyn 8 hefyd fwynhau gêm yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen a'u sgôr terfyno hwy oedd 0–0.

Llongyfarchiadau gwresog i Jamie Mcdaid a Daniel Bell o Flwyddyn 7 a Gwion Williams ac Ezra Warren o flwyddyn 8, ar ennill eu lle yng ngharfan Gwynedd.

## Ydi Dynion yn Gallu Coginio?

Wel ydi, yn achos David Bee o flwyddyn 11! Enillodd David gystadleuaeth 'Cogydd y Flwyddyn' yn ddiweddar, a'r wobr? Coginio pryd llawn i griw o bobl ym Mangor. Mae David yn dilyn llwybr anrhydeddus iawn yn y maes; bu i'w frawd mawr, Gari, ennill yr un anrhydedd y llynedd.

Llongyfarchiadau gwresog i ti ac edrychwn ymlaen at flasu ffrwyth dy lafur yn y dyfodol.

*David Bee hefo'i darian.*

## Chwaraeon

Gyda'r dyddiau'n ymestyn a chyda tymhorau chwaraeon yn prysur gynhesu, braf yw gweld ein disgyblion yn serennu ar sawl maes chwarae. Addas iawn felly yw datgan fod y neuadd chwaraeon newydd sbon danlli'n BAROD!! A bod ein disgyblion eisoes yn elwa o'i bodolaeth. Bydd agoriad swyddogol yn ydyfodol agos, felly cofiwch edrych yn y rhifyn nesaf am fanylion. Yn y cyfamser, wele rai o ganlyniadau'r mis:


Cefnogwch ein Hysbysebwyr




## Dyddiadau i'w Cofio

**Chwefror**
20–24: Gwyliau Hanner Tymor
27: Ysgol yn ail gychwyn
28: Gig Gŵyl Dewi efo Frizbee a grwpiau'r ysgol (i ddisgyblion)

**Mawrth**
9: Tynnu lluniau Bl. 11 a 13
20–22: Arholiadau Modiwlar Gwyddoniaeth Bl.10
21: Noson Rieni Bl. 7
22–30: Arholiadau Llafar Cymraeg Bl.11
28: Noson Rieni Bl.9

**Ebrill**
3–7: Profiad Gwaith Bl.12
10–21: Gwyliau'r Pasg
24: Ysgol yn ail gychwyn


Racca Blodau
(Alwyn and Sarah Jones)
Ffôn 870605
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 7ed o Chwefror a dechreuwyd y cyfarfod, fel arfer, trwy weddi.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Bryn Williams a Mr Owen Williams o First Hydro, Dinorwig. Cafwyd cyflwyniad manwl gan y peirianwyr ar fwriad y Cwmni i gynyddu cyfaint y dŵr yn Llyn Marchlyn a Llyn Peris. Ar ôl y cyfnod ymgynghori, yn fras, y digwyddiadau fydd:

- cyflwyno cais cynllunio yn chwarter olaf 2006;
- codi uchder argae Marchlyn a'r Pwll Ymchwydd yn nechrau 2007;
- codi uchder argae Llyn Peris (amser i'w benderfynnu).

**Braslun o gwestiynau'r Cyngor ac atebion peirianwyr First Hydro**

*Pa sicrwydd sydd na fydd sefyllfa Llyn Padarn/Afon Seiont yn waeth pan fo llifogydd?*
Ateb: Ni ollyngir dŵr o Lyn Peris yn ystod llifogydd, rheolir y llif fel a wneir ar hyn o bryd.

*A fydd hyn yn effeithio ar yswiriant pobl yr ardal?*
Ateb: na.

*Beth fydd ar gael i ardal Llanddeiniolen o gofio bod Llanberis wedi cael yn helaeth pan adeiladwyd yr Orsaf?*
Ateb: Rhoddir cytundebau adeiladu i gwmnïau lleol i gyflogi gweithwyr o'r ardal.

Mae'r Cwmni eisioes yn cefnogi rhai mudiadau. Os bydd gan y Cyngor neu'r ardal unrhyw gynllun mewn golwg bydd croeso iddynt drafod gyda'r cwmni. Addawyd danfon copi o bolisi'r Cwmni i'r Clerc.

*Gan mai Llyn Peris sy'n derbyn y dŵr, oni fuasai'n ddoethach ac yn ddiogelach codi argae Llyn Peris yn gyntaf ac wedyn Marchlyn? Mae'r bwriad fel pe tai â'i ben i lawr.*
Ateb: Dyma'r drefn a benderfynwyd.

*Ym 1974 dywedwyd na ellid codi argae Marchlyn yn uwch oherwydd peryglon. Pam y gellir gwneud hyn rŵan?*
Ateb: Mae llawer o ymchwil wedi ei wneud yn y cyfamser ar batrymau daeargrynfeydd, ac mae eu heffaith yn cael ei fonitro yn barhaol. Nid oes perygl.

Pan godwyd yr argae gwnaed 16 modfedd o gamber ynddi (y canol yn uwch na'r ochrau). Disgwyliwyd i'r canol fynd i lawr wrth setlo ond dim ond pedair modfedd y mae wedi symud – canlyniad sydd wedi plesio'r peirianwyr yn fawr.

Gwybodaeth er diddordeb – defnyddir 7 miliwn medr ciwb o ddŵr i gynhyrchu trydan ar hyn o bryd.

*Beth yw / fydd effaith y tanio yn Chwarel Penrhyn ar argae Marchlyn?*
Ateb: Mae craig Marchlyn Bach, sydd o ansawdd gwahanol, yn amddiffyn effaith y chwarel ar yr argae ond darllennir offer mesur Marchlyn yn rheolaidd.

*Oes gan y cwmni hawl i gludo gwastraff chwarel Dinorwig oddi yno at ddefnydd fel sylfaen ffyrdd?*
Ateb: Na, cedwir gweledіad y chwarel fel ag y mae, o barch i'r chwarelwyr a'r gwaith a wnaed yno ar hyd y blynyddoedd. Defnyddir ychydig o gerrig oddi yno i wneud gwaith lleol fel atgyweirio llwybr Zig-Zag, bwriedir defnyddio llechi eto yn ystod yr haf i lenwi twll yn y mawn ym mhen Llyn Peris.

**COFNODION IONAWR**

Cywiriad Phyllis Ellis: Llwybr 93 angen ei glirio, nid clo ar gât oedd yr anhawster.
Derbyniwyd y cofnodion, fel arall, yn rhai cywir.

**MATERION O'R COFNODION**

**Cofeb Huw Lloyd Edwards.** Derbyniwyd ateb Gwynedd a'u ffurflen gais am gymorth o Gronfa Gwella Gwynedd. Penderfynwyd gofyn i Gwilym Williams am bris cofeb a'i gosod. Addawodd Phyllis Ellis geisio caniatâd perchennog Siop Gron i roi'r gofeb ar yr adeilad.

**Teithwyr yn Chwarel Fachell.** Ateb Gwynedd yw eu bod wedi anfon rhybydd i'w symud at y sawl y maent yn tybio sy'n berchen y chwarel. Dywedodd Phylip Jones nad yw'r sefyllfa yn gwella wrth eu danfon o un lle i'r llall. Cadarnhaodd Len Jones bod Un Llais i Gymru mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â hyn.

**GOHEBIAETHAU ERAILL**

**Cysgodfannau bwsiau.**
Penderfynwyd atgyweirio'r cysgodfannau am y tro diwethaf a derbyniwyd pris Mri G. L. Jones, Bethesda.

**Rhydfadog, Deiniolen.** Bu lori G. L. Jones, bws Express Motors a lori Daniels yn parcio yno dros nos a phenwythnosau. Dywedodd y clerc ei fod wedi cysylltu â'r cwmniau a chael addewid na fyddant yno eto.

**Mainc Clwt y Bont.** Ffoniodd Gwilym Williams y clerc yn ystod i Mis i ddweud bod y fainc wedi ei fandaleiddio – coed wedi eu rhwygo i ffwrdd. Derbyniwyd pris Mr Bryn Hughes am ei hatgweirio.

**CYNLLUNIO**

**Ceisiadau a dderbyniwyd:**
Ymestyn sied: fferm Bryn Derw, Brynrefail.
Codi Anecs yn lle'r modurdy: Niagaria, Deiniolen.
Man saethu targedau: Coed Bolyn Mawr, Bethel
Adeiadu tŷ: safle Capel Maes y Dref, Clwt y Bont.
Codi Annedd: Tir ger Eglwys Santes Helen, Penisa'rwaun.
Meithrinfa: 3 Bron Helen, Clwt y Bont.
Codi tŷ fforddiadwy: Rhiw Goch, Clwt y Bont.
Estyniad: Llys Ifor, Saron.
Estyniad: Bryn y Gwynt, Dinorwig.
Estyniad: 20, Cremlyn, Bethel
Estyniad: 2, Y Ddôl, Bethel.

**Sylwadau a wnaed ar gais cynllunio:**
Addasu adeilad allanol a'i ymestyn i wneud anecs: Cae Rhedyn, Clwt y Bont.
Hysbyswyd yr Adran Gynllunio yng Ngorffennaf 2005 bod gwaith yn cael ei wneud yma heb ganiatâd. Derbyniwyd y cais yng nghanol Ionawr 06 ac ymatebwyd fel a ganlyn:
Yn ôl y cais nid oes coed angen eu torri i lawr. Gwelwch ar gynllun y cais gwreiddiol bod dwy goeden onnen fawr y tu cefn i'r adeilad yma. Y coed hynaf yn yr ardal, nid ydynt yno bellach. Nid oes cofnod eu bod wedi cael caniatâd i'w torri felly mae hyn yn drais.

Mae mwy na chwarter yr adeilad cerrig wedi ei ddymchwel a'i ailgodi â blociau. Nid oes tanc carthffosiaeth ar y cynllun, felly ai'r bwriad yw cysylltu â thanc y prif dŷ? Os felly bydd rhaid croesi lôn fferm Rhianfa, mae llwybr cyhoeddus ar hyd y lôn yma. A yw'r tanc presennol yn ddigon o faint i ddau dŷ?

Ar y cais gwreiddiol yr oedd lle i barcio dau fodur, ni fydd lle i barcio ar gyfer yr anecs.

Bydd y drysau gwydr yn nhalcen pellaf terfyn yr eiddo, yn agor i gae Fferm Rhianfa.

Datblygiad annibynnol o Gae Rhedyn fydd hwn ar ôl ei orffen.

**Apêl Cynllunio, Llywodraeth y cynulliad.** Diddymu'r amod o gyfyngu defnydd yr eiddo i weithwyr amaethyddol: Ael y Garth, Nant y Garth.

**Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd.**
Estyniad: 5 Rhes Deiniol, Deiniolen.
Addasu adeilad allanol: Castell, Pentir.
Estyniad: 20, Cremlyn, Bethel.
Estyniad: Bryn y Gwynt, Deiniolen.
Estyniad: 2, Y Ddôl, Bethel.
Estyniad: Tegfryn, Lôn Tai Castell, Deiniolen.

**LLWYBRAU**

Gwnaed llawer o waith clirio, draenio, gosod gatiau newydd a thrwsio gan Gyngor Gwynedd a chan dirfeddianwyr ar gyfarwyddyd Gwynedd yn ystod y flwyddyn, ond gan bod cymaint o lwybrau yn y gymuned mae'n anodd ymateb i bob cwyn. Disgwylir ymateb y cyhoedd i'r hysbyseb yn *Eco'r Wyddfa* mis Ionawr.

Dywedodd Phyllis Ellis bod y ffordd/llwybr rhwng Stablau a Cae Hywel yn llithrig oherwydd y mwd. Penderfynwyd gofyn i Wynedd a yw'r ffordd yma yn fabwysiedig, ac os ydyw, iddynt ddanfon y peiriant glanhau yno yn rheolaidd.

**MATERION ERAILL**

Wrth sôn am y peiriant glanhau awgrymodd Phylip Jones ein bod yn atgoffa Adran Ffyrdd Gwynedd o'u haddewid i lanhau ffordd Dinorwig yn rheolaidd. Cyfeiriodd hefyd at yr holl faw cŵn o Faes Eilian at Ty'n Fawnog ac i fyny at Gapel Sardis. Penderfynwyd gofyn i Wynedd osod arwyddion yno.

**Meinciau.** Dywedodd y clerc bod dwy fainc ger Pen y Bont, Deiniolen, yn beryglus a bod angen atgyweirio un fainc o flaen y llyfrgell. Deellir mai Cyngor Arfon osododd y rhain felly penderfynwyd eu dwyn i sylw Gwynedd, gan sicrhau na chânt eu diddymu.

Dywedodd Dafydd Morris bod gwter wedi cau ym mhen Tai Caradog (nesaf at tai Castell) – adroddiad i Wynedd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7ed o Fawrth.


Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON
GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR
Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**
Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**
Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

MERCHED Y WAWR. Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Chwefror gan y llywydd, Bethanne Williams. Cydymdeimlwyd yn ddwys â Heulwen Evans a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Heulwen yn ddiweddar. Croesawyd Jean Roberts yn ôl wedi cyfnod o waeledd a da oedd gweld Beryl Thomas wedi gwella ar ôl damwain yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Mrs Enid Whiteside Thomas sy'n dathlu ei phen-blwydd yn ddeg a phedwar ugain ar 18 Chwefror. Mae wedi bod yn aelod ffyddlon o'r gangen o'r dyddiau cynnar.

Bydd yr aelodau yn gofalu am y caffi yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ar 4 Mawrth a byddem yn falch o dderbyn cyfraniadau a chymorth ar y diwrnod. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ar 13 Mai yn Ysgol Friars, Bangor, a'r thema fydd 'Gobaith a Goleuni'. Enwau ac arian (£13) i Olwen cyn gynted a bo modd os gwelwch yn dda. Cynhelir cinio'r Llywydd yng Ngwesty Sant Siôr, Llandudno, ar 22 Ebrill a'r gŵr gwadd fydd Twm Elias.

Y gŵr gwadd y mis hwn oedd Sam Roberts, sy'n un o wardeniaid Parc Cenedlaethol Eryri. 'Mynydda yn America' oedd ei destun ac mi aeth â ni, drwy gyfrwng sleidiau, ar dair taith go arbennig. Yn ystod y saith degau fe deithiodd i Begwn y Gogledd, i Galiffornia ac i'r Wladfa ac mae pob anturiaeth yn parhauy'n fyw iawn yn ei gof o hyd. Roeddem ninnau'n cofio gweld rhaglen o'r enw *Antur i'r Andes* ar y teledu yn y cyfnod. Rhaglen oedd hi yn dilyn taith Sam, Alun Hughes, Dewi Buttler, Dei Thomas a Tom Thomas ar eu taith.

Diolchodd Bethanne i Sam am rannu ei brofiadau gyda ni ac am geisio esbonio beth yw'r dynfa i'r mynydd. Bydd Ysgol Pendalar yn derbyn yr arian a oedd yn ddyledus i Sam am gynnal y noson.

Diolchwyd i Eryl, Margaret, Meirwen a Mair am baratoi'r baned.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 14 Mawrth yng nghwmni Margaret Jones, Llanbedrog, a fydd yn trafod ac yn arddangos gwaith piwtar.

DIOLCH. Dymuna Mrs Enid Whiteside Thomas, Dolwar, Pontrhythallt, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, pell ac agos, am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ystod mis Chwefror.

YR YSGOL GYNRADD. Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Mrs Heulwen Evans yn eu profedigaeth o golli tad Mrs Evans.

*Gweithgareddau'r plant dan 5 oed.* Bu disgyblion y Dosbarth Meithrin yn brysur yn anfon cardiau cyfarchion at eu teulu, gan fynd i'r Swyddfa Bost i brynu stampiau ar gyfer i'r postmon eu helpu i'w cludo a'u dosbarthu o dŷ i dŷ.

Daeth Heddwraig (sy'n riant i blant yn yr ysgol) i'r ysgol yn ei char Heddlu i sgwrsio gyda phlant y Dosbarth Meithrin a'r Dosbarth Derbyn am ei gwaith yn helpu plant bach. Y golau glas a sŵn y seiren oedd yn mynd â bryd y plant.

Aeth disgyblion Blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad â Chastell Caernarfon er mwyn iddynt gael dychmygu sut yr oedd y Frenhines Anora(???) druan yn byw mewn castell oer.

*Tîm Pêl-rwyd yr ysgol.* Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaethau Pêl-rwyd Ysgolion Cynradd Eryri ym Mangor yn ddiweddar. Cafodd y genod hwyl arni gan ennill un gêm, colli un ac un gêm gyfartal. Da iawn chi, genod. Daliwch ati!

*Yr Urdd.* Bydd amryw o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn unigol ac mewn partïon canu a dawnsio yn Eisteddfod Cylch yr Urdd, a gynhelir yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, 4 Mawrth.

Dymunwn yn dda i bob un ohonoch. Gwnewch eich gorau!

PLAID CYMRU. Nos Fercher, 18 Ionawr, daeth y Cynghorydd Gareth Jones i gyfarfod Cangen Llanrug i drafod 'Mai 2007'. Ers gadael y Cynulliad yn 2003, mae Gareth yn aelod o Gabinet Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy ac ef sy'n gyfrifol am bortffolio Cyllid ac Adnoddau ar y Cyngor. Mae'n bwriadu sefyll eto yng Nghonwy yn Etholiad y Cynulliad yn 2007, ar sail ei argyhoeddiad cryf mai hunanlywodraeth yw'r unig ateb i nifer o broblemau Cymru heddiw. Soniodd am yr iaith Gymraeg, problem tlodi a chyfiawnder cymdeithasol a'r economi fel tri o fethiannau Llywodraeth Lafur Newydd dan Rhodri Morgan yn ystod y chwe blynedd y bu mewn grym. Mae'n hollol angenrheidiol cryfhau pwerau'r Cynulliad er mwyn i Gymru gael yr hawl i ddatrys ei phroblemau ei hun.

Enillwyr Clwb Cant am y 6 mis diwethaf yw: *Awst*: Meryl Green, Rhys Williams; *Medi*: Einir Gwyn, Valmai Williams, *Hydref*: Carys Jones, Ffion Worthington; *Tachwedd*: John Roberts, Meryl Green; *Rhagfyr*: Eileen Jones, Paul Rowlinson; *Ionawr*: Geraint Jones, Gwenda Roberts.

Bydd cyfarfod arbennig nos Fercher, 1 Mawrth am 7.30. Bydd Dafydd Iwan, Llywydd Plaid Cymru, yn dod atom i'r Sefydliad Coffa i ddathlu Gŵyl Ddewi mewn nsoon o Gawl a Chân. Mae'r tocynnau yn £2.00 a gellir eu cael gan Phyllis (870237), Vera (674878), Meirwen (675359) neu Llinos (674478). Croeso cynnes iawn i bawb i fwynhau noson hwyliog.

DIOLCHIADAU. Hoffai'r *Eco* ddiolch yn fawr iawn i Mrs Patsy Cropper, Bro Rhythallt, am ei gwaith diflino yn dosbarthu'r papur bro yn ei hardal dros flynyddoedd lawer iawn. Mae ei chyfraniad wedi bod mor werthfawr ond yn awr, mae yn dymuno rhoi'r gorau iddi. Diolch yn fawr iawn i chi.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG. 99 OED. Mrs Maggie Lewis, Madryn. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod braf gyda'r teulu. Llawer ohonom yn meddwl amdanoch.

90 OED. Mrs Enid Whiteside Thomas, Dolwar. Llongyfarchiadau mawr a phob dymunad da ar gyrraedd eich pen-blwydd arbennig. Deallwn eich bod wedi dathlu gyda'r teulu a bod aelodau Capel y Rhos wedi eich cyfarch a chyflwyno blodau i chwi.

18 OED. Emma, Cae Poeth. Llongyfarchiadau mawr a phob bendith i ti ar dy ben-blwydd ar gychwyn dy fywyd. Gobeithio dy fod wedi mwynhau y dathlu gyda'r teulu a'r ffrindiau.

60 OED. Llongyfarchiadau mawr i Idwal Williams, Disgwylfa ar ddathlu ei ben-blwydd arbennig yn 60 oed. Daw'r cyfarchion oddi wrth y teulu a ffrindiau, a ninnau hefyd!

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr y Clwb 100 am Chwefror oedd: £20: M. Jones, 21 Rhos Rug; £7: R. Thomas, 54 Nant y Glyn; £5: Mrs M. Griffiths, 2 Hafan Elan.

MARWOLAETH. Trist oedd clywed y newyddion fod Mr James Horman, Venice, wedi marw yn 94 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei wraig, Lily, David a Janet, y mab a'r ferch-yng-nghyfraith, a'r wyrion.

EIN COFION at bawb sydd ddim yn dda eu hiechyd yn y pentref.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Glyn a Dawn, Bro Rhythallt, ar enedigaeth eu mab bach yn ddiweddar. Mae ganddo ddau frawd mawr sydd wedi gwirioni ag o.

CAPEL Y RHOS. Fore Sul, 19 Chwefror, daeth cynulleidfa dda i Gapel y Rhos i bleidleisio i ddewis blaenoriaid, ac fe etholwyd dyn ieuanc dawnus arall i'r Sêt Fawr at y tîm gweithgar sy'n arwain yr eglwys. Mae Mr Len Brookes yn brifathro Ysgol Capel Garmon, ac eisoes bu'n gweithio gyda phlant yr eglwys fel athro Ysgol Sul. Llongyfarchiadau lawer iddo a phob bendith ar ei waith.

Llongyfarchiadau hefyd i un o aelodau hynaf a ffyddlonaf yr eglwys, Mrs Enid Whiteside Thomas, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed ddydd Sadwrn, 18 Chwefror. Y Sul cynt cyflwynwyd basgedaid o flodau iddi gan ei gor-wyrion, Robin, Anna a Guto, ar ran plant yr Ysgol Sul. Trwy gyd-ddigwyddiad hapus, y Parch H. Gwynfa Roberts, nai Mrs Thomas, oedd yn pregethu y Sul hwnnw.

Mae Mrs Thomas wedi ei geni a'i magu dafliad carreg o'r capel, ac wedi byw yno ar hyd ei hoes, gyda Chapel y Bont a'i weithgareddau yn ganolbwynt ei bywyd. Mae wedi gwasanaethu fel blaenor, arweinydd y gân ac organyddes am flynyddoedd lawer, wedi dysgu cenedlaethau o blant yn yr Ysgol Sul a dangos gofal mawr dros yr adeilad sydd mor agos i'w chalon.

GWELD BREUDDWYD' Bydd y bardd, Mererid Hopwood, yn cadw noson yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30 yh. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd. I sicrhau tocynnau (£4 yn cynnwys gwydraid o win a lluniaeth ysgafn) cysylltwch â Sian Davies (01248 670685), Edwina Morris (01248 670407) neu Alys Jones (01248 670140).

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –
Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

ARVONIA
• Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
• Rhaglen Tripiau Dyddiol.
• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
• Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.




Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

# Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, Ionawr 17eg yn ysgol Gymuned Cwm y Glo. Cadeiriwyd gan y Cyngh. Arwel Thomas. Cadarnhawyd yn gywir gofnodion cyfarfod mis Rhagfyr.

**Penderfyniadau pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd** Caniatawyd ail leoli uned dosbarth yn Ysgol Gynradd Llanrug a hefyd yr estyniad ar Haulfan,Ffordd Glanffynnon.

Gwrthwynebodd y Cyngor Cymuned y cais cynllunio ar gyfer codi chwech o dai ar dir ger Hafod y Glyd, Llanrug, ar y sail fod y tir tu allan i ffin ddatblygu'r pentref ac yn ychwanegu at batrwm llinynnol Llanrug. Yn ogystal fe fyddai mynediad i'r safle ar ffordd gul, brysur a pheryglus.

Gwrthwynebwyd hefyd y cais i leoli naw caban pren ychwanegol ar Barc Carafannau Brynteg, Cwm y Glo, ar y sail y byddai gorddatblygu ar y safle ac y byddent yn weladwy. Byddai hefyd yn amharu ar y mwynderau presennol.

Cyflwynwyd adroddiad ariannol gan y Cyngh. Goronwy Hughes ac fe drafodwyd y praesept ar gyfer 2006/2007. Penderfynwyd gofyn am yr un swm â 2005/2006.

Trafodwyd rheolau Mynwent Llanrug yn derfynol a mabwysiadwyd y rhain. Byddant yn weithredol o Ebrill 1af 2006. Bydd copi ohonynt ar gael yn Swyddfa'r Post yn Llanrug a Chwm y Glo ac fe anfonir copi i'r ymgymerwyr lleol.

Bydd ymholiadau yn cael eu gwneud gan y clerc ynglŷn â'r cwtogi arfaethedig ar y gwasanaeth glanhau strydoedd yn Llanrug. Wrth gysylltu, bydd cais yn cael ei wneud i beidio dileu'r gwasanaeth hwn ond y byddai'n fwy buddiol i'r lori ddod oddi amgylch ddiwrnod ar ôl gwagio'r biniau yn hytrach nag ar yr un diwrnod. Mae'n amhosibl mynd rhwng y biniau i gyrraedd ochr y ffordd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi caniatáu newid defnydd nifer o adeiladau ffermydd yn yr ardal i greu unedau gwyliau. Gwnaed cais i'r clerc wneud ymholiadau i weld a oes gweithredu wedi bod ar yr adeiladau, ac os oes, ym mha fodd mae Cyngor Gwynedd yn monitro'r defnydd ohonynt.

Mae pryder am gyflwr y canllaw ar y llwybr steps llechi (Rhif 19) o dan Rhes Bryn Hyfryd yng Nghwm y Glo. Bydd y clerc yn gwneud ymholiadau i sicrhau fod y llwybr a'r canllaw yn cyfarfod gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch.

Penderfynwyd rhoi hysbyseb yn *Eco'r Wyddfa* ac yn yr *Herald* i wahodd tendrau ar gyfer torri gwair ym Mynwent y Plwyf a'r ddau gae chwarae sydd dan ofalaeth y Cyngor Cymuned.

Pasiwyd fod y Cyngor yn ymaelodi â Un Llais Cymru (Undeb ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref).

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Sefydliad Coffa, Llanrug am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Chwefror 21ain 2006


Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts



Perchnogion Newydd!
yn parhau'r traddodiad gwych
WAVELL'S
London House, LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus, Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!


# CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn yr Ysgol Gymuned nos Lun, 6 Chwefror. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mrs Dorothy Jones a dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Kathleen Jones a Mrs Marjorie Roberts. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd y llynedd a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Cafwyd adroddiad gan Dorothy am y cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn a diolchwyd i bawb am eu gwaith caled. Cafwyd adroddiad gan y Trysorydd, Mrs Joyce Ransom. Cytunodd y swyddogion i wneud eu gwaith am flwyddyn arall:
Swyddog Cofrestru: Mrs Dorothy Jones; Ysgrifenyddes: Mrs Hilda Orritt; Trysorydd: Mrs Joyce Ransom; Ymwelwyr y Cleifion: Mrs Enid Taylor (Llanrug) a Miss Meira Williams (Cwm-y-glo).

Trafodwyd rhai materion gan Dorothy a threfnwyd rhaglen am y flwyddyn. Cynhelir diwrnod tawel ym Mhenmaen-mawr ar 22 Mai (mwy o fanylion eto). Yn gofalu am y lluniaeth oedd Joyce ac Enid. Rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Dorothy. Diolchwyd i'r gwesteion gan Meira. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.
Cyfarfod nesaf ar 6 Mawrth.

LLONGYFARCHIADAU i Ruth Hobby, Gernant, ar ddod yn Nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Ella, i Jackie a Paul yng nghaer.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Bethan ac Euron, Bod Elan, ar enedigaeth merch fach, Seren Haf, chwaer fach i Jason, Nia a Llio.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Margaret Williams, Goleufryn, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

YR YSGOL
Hoffwn atgoffa rhieni sydd gyda phlant fydd yn 3 oed cyn 1 Medi 2006, ac sydd yn dymuno iddynt ddod i'r ysgol yn rhan-amser i gysylltu gyda Mrs Davies cyn 1 Ebrill 2006 er mwyn eu cofrestru. Hefyd hoffwn atgoffa rheini sydd gyda phlant fydd yn 4 oed cyn 1 Medi 2006 ac sydd yn dymuno iddynt ddod i'r ysgol amser llawn, i gysylltu gyda Mrs Davies cyn 1 Ebrill 2006 er mwyn eu cofrestru.

Bellach mae'n ddiogel i ddefnyddio'r dŵr yn syth o'r tap ac rydym wedi ailgychwyn rhoi poteli dŵr i'r plant.

Aeth Blwyddyn 5 a 6 i'r Llyfrgell yng Nghaernarfon i weld arddangosfa ac i gymryd rhan mewn gweithdy am waith a bywyd Paul Robeson. Ewch i weld eu lluniau ar ein gwefan newydd.

Diolch i fam Danny ac Owen, sef Alys Smith, am ddod i'r ysgol i ddangos i Blwyddyn 3 a 4 sut i glocsio. Roedd y plant wedi cael hwyl iawn.

Bu'r Cyngor Ysgol yn casglu ffonau symudol a hen arian i'w gyrru i Apêl *Blue Peter.* Diolch i bawb gymrodd ran yn yr ymgyrch – mae'r parsel wedi ei yrru.

Daeth James a Kim i'r ysgol gyda sioe bypedau a neges bwysig iawn i'r plant: 'Paid Cyffwrdd – DWED!' Roedd Mr Pynsh angen dysgu'r neges hefyd!

Aeth nifer o blant draw i ddisgo'r Urdd yn Ysgol Syr Hugh Owen cyn hanner tymor. Roeddynt i gyd i weld wedi mwynhau eu hunain.

Cafodd Blwyddyn 1 a 2 fynd i Ysgol Penisarwaun i weld perfformiad o 'Dwi isio dringo coedan!' gan Gwmni'r Frân Wen a diolchwn iddynt am eu croeso.

GWELD BREUDDWYD' Bydd y bardd, Mererid Hopwood, yn cadw noson yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30 yh. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd. I sicrhau tocynnau (£4 yn cynnwys gwydraid o win a lluniaeth ysgafn) cysylltwch â Sian Davies (01248 670685), Edwina Morris (01248 670407) neu Alys Jones (01248 670140).


R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846



Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

# O SIAMBAR SELWYN

**CYFAILL yn awgrymu i mi ychydig yn ôl, 'Mi fyddet ti'n ŵr cyfoethog iawn petaet ti heb grwydro cymaint!' Digon gwir, cyn belled â mae 'nghyfrif banc i yn y cwestiwn. Ond, rwy'n berffaith sicr fy mod i'n gyfoethocach o gryn dipyn gan i mi fanteisio ar grwydro'r byd 'ma yn weddol helaeth dros y blynyddoedd. Rwy'n falch hefyd i mi dderbyn cyngor i wneud y teithau pell cyn i mi fynd yn rhy fusgrell ac yn rhy flinedig. Mae angen stamina eitha cry i deithio.**

Dwi'n barod i gyfaddef bellach, 'Daeth i ben deithio byd'. Mi fûm i yn ystyried mynd unwaith eto i'r Wladfa a manteisio ar y cyfle i ymweld â'r Eisteddfod yn ystod fy nhymor fel Archdderwydd. Penderfynu peidio. Majorca fydd y lle pella' mwyach.

Rwy'n cytuno cant y cant â'r hen ddihareb Sieineaidd, sef *'Fod y sawl sydd wedi teithio mil o filltiroedd yn ddoethach person na'r sawl sydd wedi darllen mil o lyfrau.'* Mae dihareb arall o eiddo'r Sieineaid yn werth i ni i gyd ei hystyried, sef *'Os ydych yn marw efo ceiniog yn y banc – yna dydach chi ddim wedi byw bywyd llawn.'*

Ac onid Oscar Wilde a ddywedodd, *'Fe wnaed arian i gael eu gwario.'* Fo ddywedodd hefyd, *'Mae bywyd yn rhy bwysig i siarad yn ddifrifol amdano. Mae BYW bywyd yn un o'r pethau puraf yn y byd – bodoli yn unig a wna amryw o bobol.'* A chofiwch am ei ateb pan ofynnodd gŵr y tollau iddo, *'Anything to declare?'* Ateb Oscar Wilde oedd *'Only me genius!'*

Tueddu i edrych yn ôl yn hytrach nag edrych ymlaen mae rhai fel fi sydd wedi cael y fraint o dreulio dros dri chwarter canrif ar y ddaear 'ma. Edrych yn ôl gyda diolch. A'r diolch pennaf am gael nerth ac iechyd i gyflawni fy nyletswyddau, i grwydro'r byd ac i fwynhau fy mhleserau. Fedra i ddim meddwl am fawr o lefydd yn yr hen fyd 'ma y carwn i ymweld â nhw bellach. Efallai y carwn i fod wedi gweld Everest am y ffaith fy mod i wedi bod yng ngwaelod y byd, ac y carwn i fedru dweud i mi weld ei gopa fo hefyd. Dim ond ei weld a medru dweud – Dacw fo.

Fûm i erioed yn rhy hoff o dreulio llawer o amser mewn dinasoedd, ond mi rydw i'n hynod falch i mi fanteisio ar y cyfle i ymweld â dinasoedd fel Rhufain, Athen a Jerusalem. Dwi'n credu y dylai pawb sy'n hoff o deithio geisio ymweld â'r dinasoedd hanesyddol hyn.

Mae 'na ambell ddinas sy'n wahanol i bob dinas arall, ac yn creu argraff arbennig. Un o'r rhai hynny i mi ydi Rio-de Janeiro. Un arall ydi San Fransisco ac, wrth gwrs, Lenningrad, fel y gelwid y lle pan es i yno gynta, neu St Petersburgh, fel yr adwaenir y ddinas bellach. Ond os am brofiad cwbwl wahanol, dinasoedd Morocco amdani, llefydd fel Rabat, Fez a Marrakesh.

Profiad bythgofiadwy oedd ymwthio drwy strydoedd culion drewllyd medina Marrakesh. Welais i erioed gymaint o feiciau modur yn ymwingo drwy gymaint o bobol drwy strydoedd mor gul. Wrth gwrs, mae rhamant y gorffennol i'w weld ac i'w deimlo yn nhemlau a phalasau holl ddinasoedd Imperialaidd Morocco, a phrofiad arbennig ydi ymwau drwy'r miloedd ar sgwâr Marrakesh. Yno fe gewch wylio campau'r acrobats, y llyncwyr tân a'r gwŷr rhyfygus hynny sy'n ymfalchïo mewn gwisgo coleri o nadroedd gwenwynig yn gylch am eu gyddfau.

Rabat ydi prifddinas Morocco. Dinas o flodau a gerddi a choed ac o balasau moethus, a phan oeddwn i yno roedd llun o'r Brenin Hassan i'w weld ymhobman. Fez yw'r hynaf o ddinasoedd Imperialaidd Morocco. Dinas a ddarganfyddwyd yn y flwyddyn 808 gan ŵr o'r enw IDRIS. Tybed a oedd yr Idris hwn o dras Gymreig? Digon o waith neu mi fyddai un o fynyddoedd yr Atlas yn sicr o fod wedi cael yr enw Cader Idris!

Os ydi medina Marrakesh yn agoriad llygad, dydi hyn yn ddim o'i gymharu ag un Fez. Plethwaith o strydoedd culion, budr, drewllyd, ac fe ellwch chi brynu unrhyw beth o dan haul y greadigaeth yno. Cynteddau fel ogofâu yn diflannu i'r tywyllwch, a phlant carpiog yn gwibio i mewn ac allan ohonynt fel llygod. Hen wŷr a gwragedd a babanod, prin allan o'u clytiau, yn begera a mulod llwythog yn eich hyrddio yn ddiseremoni. Os peryglon beiciau modur oedd yn fy mhoeni yn Marrakesh, roedd mulod Fez yn fwy peryglus; fe glywch chi feiciau modur fel cacynen wrth eich pen-ôl, tra boddwyd sŵn y mulod ym mwrlwm prysurdeb y medina.

Sut yn y byd mawr ma'r holl bobol hyn yn llwyddo i wneud bywoliaeth yn eu bocsus o siopau? Yma yn y filltir sgwâr o brysurdeb, fe ddowch chi ar draws y crefftwyr wrth eu gwaith yn cerfio addurniadau ar blatiau ac ar ornamentau o gopr a phres, yn trin lledr ac yn gwneud carpedi. Carpedi costus mae'n wir, ond carped am oes, ac er gwaetha'r pris, bargen!

* * *

Cysgwr gwael ydw i. Pedair awr yn unig – yna hel meddyliau hyd nes i'r wawr dorri. Wnes i 'rioed, diolch i'r drefn, brofi'r diflastod o gyfrif defaid. Ond mi fydda i'n aml yn pwyso botwm fideo'r cof ac yn ymweld yn rhad ac am ddim â mannau arbennig yn yr hen fyd 'ma.


Torheulo ar Draeth Bondai. Cicio pêl ar Draeth Copocabana yn Rio, a dychmygu fy hun yn Pele. Dringo'r Ayres Rock yn Awstralia a gweld yr eirth gwynion yn eu cynefin yn yr Arctic. Reidio camel ar gyrrion Anialwch y Sahara. Rhyfeddu wrth sylwi ar byramidiau'r Aifft ac wrth wylio campau'r deifwyr heriol yn Acapulco. Mynd ar ambell fordaith i'r North Cape a rownd Cape Horn a phrofi stormydd Bae Biscay. Y cyfan yn dod yn ôl dim ond pwyso botwm fideo'r cof.

Do, 'daeth i ben deithio byd' yn llythrennol o bosib, ond mae'r atgofion yn fyw iawn ac mi rydw i'n ystyried fy hun yn eitha cyfhoethog oherwydd hynny.

Dychmygaf glywed gŵr y tollau yn gofyn wrth i mi ddychwelyd o'm taith olaf, *'Anything to declare?' 'Dim ond fy atgofion gyfaill.'* Ydw, mi rydwi'n ŵr cyfoethog iawn.


**H. E. HUGHES**
**A'I FEIBION**

**Bwthyn Gadlys**
**LLANBERIS**
**FFôn: 870444**



• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

**E. W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**

**Ffôn: (01286) 870202**

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

**Gwesty**
**Dolbadarn**
**LLANBERIS Ffôn: 870277**



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

# Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

## Mewn Caets, Ond Nid Mewn Caethiwed... Pwy? Pwy Ddaeth â Hi Yma?



'Does w'bod, tra'n lindiloncian ar hyd y fan, beth yn hollol y gellir taro arno yn llechu dan draed, neu tra'n cymowta dan do ac wrthi'n llygadu düwch a gwynder rhyw ddogfen neu'i gilydd. Y mae'r cyfan, rhywfodd, yn creu cynnwrf yn y gwaed. Ffotograff ydyw'r uchod, a dynnwyd hefo camera Cannon Eos – yn y filodfa ym Mae Colwyn! Cafwyd yr annisgwyl! Y *lwyden* mewn caets ond nid mewn caethiwed!

Ystyriwch rŵan, da chwi, y cwestiwn canlynol, sef a wyddom i sicrwydd ddyfodiad 'y lwyden' i Brydain? Y 'lwyden' ydyw'r wiwer lwyd. Ie, dyna chwi, yr estrones o Ogledd America.

Honnir mai Sais, o'r enw T. V. Brockelhurst, a'i cyflwynodd am y tro cyntaf i wledydd Prydain ac mai yn y flwyddyn 1876 y digwyddodd hynny, ym Mharc Henbury, ger Macclesfield, sir Gaer, Lloegr. Dyma beth sydd gan y naturiaethwr, Iolo Wiliams, i'w ddweud ar dudalen 118 o'i lyfr *Blwyddyn Iolo*, Gwasg Gwynedd 2003:

*'Cyflwynwyd y wiwer lwyd i Loegr o Ogledd America yn 1876 ac fe'i cyflwynwyd i Gymru mewn o leiaf ddau safle gwahanol, sef Wrecsam ac Aberdâr, yn 1922. Roedd y cymysgedd o goed pinwydd a choed collddail yn berffaith iddi ac o fewn llai na chanrif roedd wedi lledaenu i bob cornel o'r wlad.'*

Dydy hyn ddim yn wir! Ceir ar gael dystiolaeth sy'n profi'n ddigamsyniol fod y wiwer lwyd ar dir y byw yma yng Nghymru 48 mlynedd cyn hynny! Seilir y cyfan ar yr hyn a geir yn *The Cambrian Quarterly Magazine*, rhif 7, cyfrol 2, 1 Gorffennaf 1830, tt. 351–353, a'r wybodaeth a gynhwysir yno mewn llythyr pur fanwl at Olygyddion y cylchgrawn. Dyma beth a dd'wedir, a chyfieithiaf o'r iaith fain:

*'Y mae'r wiwer lwyd yn ffynnu mewn glennydd diarffordd ym Maldwyn a sir Ddinbych ac i'w gweld yng Nghwm Llwynog, sydd rhwng Llanfaircaereinion a Llanerfyl... Gwelais,'* ebe'r llythyrwr, *'wiwer lwyd Gymreig, wedi ei stwffio, ym meddiant bonheddwr a oedd yn byw yng Nghaer; fe'i saethwyd gerllaw Neuadd Llandilsilo, sir Ddinbych, Hydref 1828.'*

Ie, ie, Hydref y flwyddyn 1828! Felly, chwi gofnodwyr byd Natur yn Lloegr ac hyd yn oed yng Nghymru (Iolo! Iolo! 'ngwas gwyn i!), cywired y camgymeriad, a datganer yn erglyw i'r holl fyd. *'Nid T.V. Brockelhurst oedd y cyntaf i gyflwyno'r wiwer lwyd i wledydd Prydain.'*

Rŵan ta, pwy felly a'i cyflwynodd i Gymru? Wn i ddim wir! Teithwyr? Llongwyr? Ni ellir ond dyfalu, ond mi wn ei bod yma i aros ac, fel ei chyfnither, 'y goch', sy'n gnofil, yn aelod selog o deulu'r llygod mawr!

### Canlyniad Cystadleuaeth Stampiau Byd Natur

**Yr atebion cywir**

Yn y rhes uchaf: *Glas y dorlan* a *gwiwer lwyd*

Y rhes odditano: *Eog* ac *Afanc*

### Cystadleuaeth Glas y Dorlan

Rhyfeddais, sefais yn syn –
i'w wylio
(llinell o englyn)

Ni chafwyd 'run ateb cywir i'r gystadleuaeth y tro hwn. Cynigir llyfr, sy'n ymwneud â byd Natur, yn wobr am ateb yn gywir pwy ydyw awdur englyn enwog 'Glas y Dorlan', sy' hefyd yn deitl cyfrol wych o farddoniaeth. Eich atebion, os gwelwch yn dda, erbyn diwedd yr wythnos nesaf, wedi eu hanfon at Ddafydd Guto, Y Nyth, Neuadd Glasgoed, Llanrug LL55 2BB.


**Silver STAR**

**GWYLIAU SEREN ARIAN**

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

**Tŷ Gwledig Meifod** Bontnewydd

*'Dewch yn gynnar i elwa o gynnig arbennig'*
Cinio o 4.00 y.h. – tan 6.00 y.h.
Dydd Llun i ddydd Gwener
1 Cwrs – £6.95 • 2 Gwrs – £8.95 • 3 Chwrs – £10.95
Prydau bar ar gael hefyd
wedi gweini o 12.00 y.p. tan 9.00 y.h.
*(Bwydlen newydd wedi ei chyflwyno)*
Nawr mae'r hydref wedi cyrraedd a'r gaeaf rownd y gornel cymerwch fantais i fwynhau ein cynnig arbennig yma mewn awyrgylch glyd a chynnes o flaen y tân agored.
*Cysylltwch â ni am fanylion pellach ar* 01286 673351


## PENISARWAUN


**Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407**


CRONFA'R PENSIYNWYR. Enillydd Pêl Bonws Loteri mis Ionawr oedd Mrs Gwenda Jones, 11 Bryn Tirion. Llongyfarchiadau.

BINGO PASG. Cynhelir Noson Bingo yn y Neuadd Gymuned, **nos Wener, 31 Mawrth am 6.30** o'r gloch. Bydd amrywiol wobrau a raffl. Mynediad yn cynnwys paned a bisgedi: 50c i oedolion a 20c i blant. Croeso cynnes i bawb.

GWELLHAD. Ein cofion annwyl atoch, Mrs Annie Hughes, Cae Hywel,. gan obeithio eich bod yn gwella. Pob dymuniad da am adferiad iechyd i bawb arall sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

EIN·CYDYMDEIMLAD llwyraf â Heulwen, Deiniol, Urien a Mari yn eu profedigaeth lem o golli tad annwyl i Heulwen a thad-yng-nghyfraith a thaid gofalus. Gŵr annwyl i Betty Pritchard, Llys Awen, Rhosgadfan (Cytir, Brynrefail gynt), brawd-yng-nghyfraith cyfeillgar i Mrs N. Evans, 1 Bryntirion, a brawd hoffus i'w frodyr a'i chwiorydd yn Rhosgadfan.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr oedd: Mr Robin Griffith, Groeslon Isaf; Catrin Gwyn, Erw Gain, Llanrug; Rhys Jones, Cae Corniog Bach.

Braf cael datgan fod dau aelod newydd wedi ymaelodi â'r Clwb Cant, sef Beth a Richie Green, Tan y Coed. Croeso a diolch am eich cefnogaeth. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol ar 30 Ionawr a chafwyd bod y cofnodion am y flwyddyn yn rhai cywir.

Y mae amrywiol weithgareddau ar y gweill gyda Chalendr 2006 yn mynd o gwmpas gan aelodau'r Pwyllgor. Gellir prynu 'diwrnod' am £1 – bydd gwobr o £50 i'r diwrnod lwcus.

Ym mis Ebrill, cynhelir **Miri'r Pasg** gydag amrywiol stondinau a chystadlaethau ar nos Iau, **6 Ebrill am 6.30**, ac yna ym mis Mai, trefnir **Taith Gerdded** yng ngofal Leslie Larsen.

Bwriedir hefyd gofyn i un o'r archfarchnadoedd am gael help i bacio nwyddau'r cwsmeriaid yn y dyfodol agos.

YSGOL SUL BOSRA. Bu'r plant yn brysur yn cynllunio cardiau Santes Dwynwen a Sant Ffolant gyda Anti Bronwen, yn dilyn eu thema 'Seintiau' neu 'Saint'. Bydd cyfle i ddilyn teithiau Dewi Sant a Sant Padrig, yn enwedig ar ôl mwynhau hanes Sant Cristoffer – Sant y Teithwyr. Yna bydd amser prysur o'u blaenau gyda Chymanfa'r Annibynwyr i'w chynnal ym Mosra ar 2 Ebrill a Chymanfa'r Methodistiaid yn nes ymlaen.

APÊL BOSRA. Fe fwynhaodd nifer o blant iau yr Ysgol Gymuned a phlant yr Ysgol Uwchradd ddau ddisgo hwyliog a heini iawn i ddathlu dydd Santes Dwynwen a dydd Sant Ffolant. Diolchir i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd tuag at y ddwy noson er budd Apêl Adnewyddu'r Capel.

EGLWYS SANTES HELEN. Dymuna aelodau'r Eglwys adferiad iechyd buan i'r Parch Jeffrey Hughes, Rhosbodrual, Caernarfon. Bydd trefniadau'r Pasg yn y rhifyn nesaf.

GWELD BREUDDWYD' Bydd y bardd, Mererid Hopwood, yn cadw noson yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30 yh. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd. I sicrhau tocynnau (£4 yn cynnwys gwydraid o win a lluniaeth ysgafn) cysylltwch â Sian Davies (01248 670685), Edwina Morris (01248 670407) neu Alys Jones (01248 670140).

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740



*Bob Lloyd yn ymddeol.*

YMDDEOLIAD. Wedi bynyddoedd o wasanaeth i Gapel Jerusalem, mae'r organydd, Bob Lloyd, wedi ymddeol o'r swydd oherwydd cyflwr ei iechyd. Dechreuwyd ei ddiddordeb yn yr offeryn pan brynodd ei rieni organ fechan iddo pan oedd tua naw mlwydd oed.

Mae gan Bob lu o atgofion am ddigwyddiadau yn ystod ei wasanaeth mewn oedfaon, bedyddiadau, priodasau ac angladdau yn y capel.

Yr atgof mwyaf diddorol oedd yr un yn ymwneud â'r amser y torrodd belt y tu mewn i organ y capel. Wrth i Bob ymdrechu i'w thrwsio cafodd wybod gan lanhawraig yn y capel fod gwraig yn Victoria Terrace yn chwilio am gartref newydd i organ oedd yn ei meddiant.

Wedi penderfynu fod yr organ newydd yn addas fe'i cariwyd yr hanner milltir i'r capel mewn berfa. Bu'r organ newydd yn chwarae ei rhan am rai misoedd ond, yn ystod un o wasanaethau'r Diolchgarwch, torrodd i lawr. Pan agorwyd cefn yr organ gan Bob a Graham Ward, daethpwyd o hyd i swm sylweddol o arian (£1966) mewn bocsus bisgedi y tu mewn iddi. Rhoddwyd yr arian yn ôl i'r gyn-berchennog, er nad oedd hi yn gwybod dim am darddiad yr arian.

DYMUNA Madge, Delyth, Lyn a Dylan o Tyddyn Eilian, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Diolch hefyd am y galwadau ffôn, blodau, y llu cardiau ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am John, ac a gyflwynir i Parafeddygon Ambiwlans Cymru Caernarfon. Diolch unwaith eto.

DIOLCH. Dymuna Dilys Baylis ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei chyfnod y n yr ysbyty.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL LLANBERIS. Ar nos Fawrth, 7 Chwefror, cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mr Ken Jones (Ras yr Wyddfa), Llanberis. Bu'n rhoi sgwrs am amryw o bethau: siaradwyr oedd wedi dylanwadu arno; hanes ei fro a'i ddiddordeb mawr yn ardal a chymdogaeth Gwaun Cwm Brwynog, a'i freuddwyd o weld teuluoedd yn ôl yn y bythynnod eto. Mae un teulu bach eisoes wedi ymgartrefu yn yr Hafoty (Foty).

Hei lwc y gwireddir ei freuddwyd ac nid golau lanterni a welir yn ymlwybro tua Chapel Hebron fel yn yr oes a fu, ond efallai 4x4 yn cario'r teulu i'r oedfaon yn yr hen gapel bach. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard a rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Vera Griffith.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas nos Fawrth, 7 Mawrth yn Festri Capel Coch am 7 o'r gloch pryd y bydd Mr Gwilym Griffith, Llwyndyrus, ger Pwllheli, yn olrhain hanes taith Cwmni Drama y pentref i Batagonia.

Croeso cynnes i'r aelodau, hen a newydd.

LLONGYFARCHIADAU i Rheon Roberts, 5 Stryd y Ffynnon, ar achlysur ei ddyweddïad gyda Delyth Williams, Y Ffôr, Pwllheli. Dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.

CYMDEITHAS YR EGLWYS. Cyfarfu'r aelodau ddechrau'r mis yn Angorfa. Cymerodd Anne y rhan dechreuol a hi hefyd a gyflwynodd y wrarig wadd heno, sef Lynda Hughes o Fethel, sydd yn gweithio fel rheolwr grŵp gyda phrosiect 'Calon Lân'. Mae hi wedi arallgyfeirio ar ôl bod yn athrawes Gwyddor Tŷ yn ysgolion y de a'r gogledd, a hanes y gwaith pwysig y mae 'Calon Lân' yn ei wneud a gawsom ganddi. Sgwrs ddifyr iawn a phawb wedi mwynhau.

Diolchwyd iddi ac i Betty Parry, Kate Owen ac Eirlys Owen am y baned a'r raffl gan Gwynfor Wiliams. Yr enillydd lwcus oedd Betty Humphreys.

Canwyd pen-blwydd hapus i Betty Humphreys, Eirlys Owen a Heulwen Edwards ar ben-blwyddi arbennig. Anfonwyd cyfarchion am wellhad buan i Averil Pritchard ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno a hefyd i Gracie Roberts sydd wedi mynd am seibiant i Blas Pengwaith a chroesawyd Gwyneth Parry fel aelod newydd.

CÔR LLEISIAU LLIWEDD. Ar 20 Ionawr bu'r côr yn diddanu aelodau'r Sioe Amaethyddol yng Ngwesty'r Eagles, Llanrwst. Treuliwyd orig ddiddan yng nghwmni'r gwesteion, gyda lluniaeth i ddilyn.

Ar waetha'r tywydd oer, ac er i un o aelodau'r côr gael cryn drafferth gyda'i modur (a chyda diolch i'r AA), cyrhaeddodd pob un ohonom adref yn ddiogel!

CÔR DYFFRYN PERIS. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Côr ar nos Lun, 20 Chwefror. Ymysg y swyddogion a etholwyd oedd: *Cadeirydd*: Elwyn Wilson Jones; *Trysorydd*: Emerson Hughes; *Ysgrifenyddes*: Hefina Jones, 2 Blaen y Ddôl. Diolchwyd i'r holl swyddogion am eu cyfraniad yn ystod y flwyddyn, gyda diolch arbennig i'r Trysoryddion, Emerson ac Awel Hughes, am eu gwaith trylwyr a medrus.

GWELD BREUDDWYD' Bydd y bardd, Mererid Hopwood, yn cadw noson yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30 yh. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd. I sicrhau tocynnau (£4 yn cynnwys gwydraid o win a lluniaeth ysgafn) cysylltwch â Sian Davies (01248 670685), Edwina Morris (01248 670407) neu Alys Jones (01248 670140).

# DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir Dinorwig. Ffôn: 870292

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mr David John Thomas, sydd ar hyn o bryd yn cartrefu ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, yn 90 oed ym mis Ionawr. Gobeithio ichwi fwynhau yr achlysur a gobeithio y cewch iechyd a nerth yn ystod y blynyddoedd a ddel. Pob bendith.

DAMWAIN. Yr oedd yn ddrwg gennym ddeall fod Geraint y Becar wedi cael damwain tra wrth ei waith yn y becws yng Nghwm y glo. Da oedd clywed ei fod yn well ar ôl bod mor symol.

Geraint, brysia wella, gan fod pawb yma yn dy golli. Dim bara, wrth gwrs, ond gan fod Geraint yn gwneud llawer i gymwynas arall mae'r golled yn fwy. Gobeithio y bydd iti wella yn fuan ac y cawn dy weld wrth dy waith. Cofion yr ardal yn unfrydol iti, Geraint. Brysia wella!

GWELD BREUDDWYD' Bydd y bardd, Mererid Hopwood, yn cadw noson yn neuadd y pentref, Bethel, nos Iau, 23 Mawrth am 7.30 yh. Trefnir y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr ac mae'n agored i'r cyhoedd. I sicrhau tocynnau (£4 yn cynnwys gwydraid o win a lluniaeth ysgafn) cysylltwch â Sian Davies (01248 670685), Edwina Morris (01248 670407) neu Alys Jones (01248 670140).

## Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru

A wyddoch chwi am unigolion dros 25 oed, neu berson ifanc 25 oed neu iau – neu hyd yn oed grŵp (dau neu fwy o unigolion) gydag un peth cyffelyb ganddynt i gyd, sef eu bod yn wirfoddolwyr ymroddedig?

Os felly – dyma eich cyfle chi i'w henwebu ar gyfer Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru, a thrwy hynny roi ychydig o gydnabyddiaeth iddynt am eu gwaith caled. Mae'r wobr arbennig yma yn mynd ers tair blynedd bellach, a'r buddugwyr cenedlaethol yng nghategori'r grŵp yn 2004 oedd Pwyllgor Cae Chwarae Llanbedrog. Braf fyddai cael buddugwyr o Wynedd eto eleni.

Felly, meddyliwch am ychydig, ond peidiwch ag oedi oherwydd y dyddiad cau yw **17 Mawrth, 2006.**

Os am ragor o fanylion a ffurflenni enwebu cysylltwch â Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd: (01286) 672626 neu rhianon@mantellgwynedd.co m neu www.wcva.org.uk


**• Priodasau • Dathliadau**
**• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau**
**• Pwyllgorau • Bwydlen Bar**
**• Cinio Dydd Sul**

QUALITY HOTEL

*Quality Hotel Llanberis*

**(Gwesty'r Fictoria gynt)**
– rhan o CHOICE HOTELS
*wrth droed yr Wyddfa*
Ffôn: **Llanberis (01286) 870253**



AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!
SKODA BMW PEUGEOT FIAT
IMPORTS GERMAN SWEDISH



Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...
Shell HELIX
MOT
Ceir Benthyg AM DDIM
Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk
AVW Car Service
BOSCH Service
VOLVO MERCEDES SAAB



# Ar Ben Arall y Lein

DYMA ni eto ar ddechrau tymor arall; tydi'r amser yn hedfan! Tydio ddim yn teimlo ond rhyw ychydig ddyddiau ers imi roi'r genweiriau yn y cwpwrdd am y gaeaf, ond dyna ni rhaid gwerthfawrogi fod y dyddiau yn ymestyn a thwll gaeaf heibio unwaith eto.

Un o bleserau cyntaf y tymor yw bod allan ar y diwrnod cyntaf am rhyw awr neu ddwy. Ar ddydd cyntaf tymor 2005 dim ond dau oedd ar yr afon, sef Clifford Thomas o'r Felinheli, a minnau – mwynhad mawr yw rhynnu ar lan yr afon! Mae pawb yn y tŷ 'ma yn dweud fy mod wedi colli arni, ond serch hynny, yr ail bleser yw ceisio bod allan ar Lyn Padarn pan mae'n agor ar 20fed o Fawrth. Mae fan hyn yn hollol wahanol yn yr oerni, gan fod rhywbeth i'w ddal yma – bydd y brithyll mewn cyflwr arbennig ac, os yn lwcus, fe ddaw rhyw dorgoch neu ddau fy ffordd. Dyna wobr fydd eu rhoi yn y badell!

Tra'n sôn am Lyn Padarn, ddechrau Chwefror roeddwn mewn cyfarfod yn Ysbyty'r Chwarel. Cyfarfod wedi ei drefnu gan ymgynghorwyr sydd wedi eu cyflogi gan Gyngor Gwynedd i baratoi adroddiad ar Dreftadaeth Ddiwydiannol a Naturiol Parc Padarn ac roedd cryn dipyn o rai â diddordeb neu gysylltiad â'r parc wedi ymgynnull. Cefais gryn ysgytwad pan sylweddolais nad oedd ond chwech ohonom yn siarad Cymraeg, ond y fwy na hynny, roedd y cyfarfod yn cael ei gynnal drwy'r Saesneg.

Roedd yn amlwg hefyd fod rhai yno nid i drafod dyfodol y Parc ond i hybu eu diddordebau eu hunain, fel un gŵr oedd yn cynrychioli rhyw sefydliad a elwir *'Snowdonia Active'*. Maent eisiau gadael i bawb ddefnyddio Llyn Padarn am ddim, a hefyd eisiau agor yr Afon Seiont i ganŵio yr holl ffordd i Gaernarfon – i gyd am ddim, wrth gwrs! Mi fyddech yn meddwl y buasai'r creadur yma, neu y Cwmni y mae'n ei gynrychioli, wedi bod yn ddigon cwrtais i siarad hefo'r Gymdeithas i ddechrau cyn ceisio cael y Cyngor, yn ôl pob golwg, i geisio gorfodi eu syniadau nhw arnom. Gan fod y Gymdeithas yn berchnogion ar gryn dipyn o Lyn Padarn yn ogystal â'r Afon Seiont, sgwn i sut fuasai criw *'Snowdonia Active'* yn ymateb pe byddai aelodau'r Gymdeithas yn dechrau defnyddio eu heiddo hwy heb ganiatâd a hynny, wrth gwrs, am ddim, fel mae nhw eisiau cael pob dim am ddim yma.

Rwyf wedi darllen yn ddiweddar hefyd fod y grŵp yma yn cael ei gynnal yn rhannol â grantiau – o'r Cyngor tybed? A yw ein harian ni, y trethdalwyr, yn cael ei ddefnyddio i hybu gweithredoedd sy'n groes i ddymuniad y rhan fwyaf o bobl lleol. Mae'n anodd credu bod ffynonellau'r grantiau yma yn gwybod be sy'n mynd ymlaen! Sgwn i!!

Cyn dod i lawr oddi ar fy mocs sebon ar y mater yma, cwestiwn bach i Gyngor Chwaraeon Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd ac Undeb Canŵio Cymru: Pa bryd ydach chi am gysylltu efo *'Snowdonia Active'* a dweud wrthynt be ddywedwyd wrth y Gymdeithas pan oeddem ni yn ceisio datblygu canolfan yn Crawia a fuasai'n rhoi cyfleon i bobl lleol ganŵio ar y Seiont? Yr ateb, wrth gwrs, oedd na fuasai'n bosib rhoi cymorth gan nad oes angen adnoddau o'r fath, am fod digon yn bodoli yn barod yn y dalgylch.

A fedar unrhyw un adael imi wybod be sy'n mynd ymlaen, os gwelwch yn dda?

* * *

Mae cryn dipyn yn holi pa bryd y bydd y dyddiau hyfforddi eleni. Y dyddiadau mae'r hyfforddwyr wedi'u rhoi i mi yw:

*dydd Sul, 30 Ebrill,*
*a dydd Llun, 1 Mai,*

ger y jetti ar Llyn Nantlle. Gadewch imi wybod os byddwch am fynychu un ai ar (01248) 670 666 neu huw.hughes@lineone.net

Yn ystod Chwefror 2007 bydd arwerthiant clefi 'sgota yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Rhaid rhoi rhybudd cynnar o hyn, er mwyn i rai ohonoch gael cyfle i bedroni pwy ran o'u hoffer i'w gwerthu. Cysylltwch gyda Dr Robin Parry neu Bert Parry, Llanberis, sef hogia'r Ocsiwn. Rydym yn gobeithio'n arw cael gwasanaeth yr arwerthwr profiadol, Dafydd Owen o'r Groeslon, i arwain y noson.

Newyddion da arall! Ar ôl cryn amser, mae addasiad Melin y Cim bron wedi ei gwblhau. Rhyw ddau fis arall a gobeithio y cawn feddwl am ddechrau dodrefnu. Diolch yn arbennig i'r cymdogion ym mhentref Pontllyfni sydd wedi rhoi i fyny gyda'r gwaith yn ddi-gŵyn.

HUW PRICE HUGHES


**am help:**
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
**01286 672626 neu 01341 422575**



**BWS BACH AR LOG**





**Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan** **(01248) 361044**

**D.P. OWENS RHIWLAS**



**DODREFN PERKINS**
**(Safle'r hen Nelson)**
**CAERNARFON**

**Ffôn: (01286) 676 040**

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, lloft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**



**Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern**

**Yswiriant Cartref**
**Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur**
**Yswiriant Teithio**
**Cynlluniau Angladd**
**Cyflenwadau Trydan a Nwy**

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

AGE Concern

Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD
**01286 678310**

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 300 o Age Concern lleol ledled y DU



LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

**GARTH MAELOG**
**51 Stryd Fawr, Llanberis**
Ffôn: **870840**



**Am Offer Tŷ a Gardd...**

**FORMAG**

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: **(01286) 872501**

# Cyfeiriadur Llenyddol Bwrlwm Eryri

Oes gennych chi hoff bennill neu hoff chwedl neu hoff awdur? Ydyn nhw'n ymwneud â'ch treftadaeth, â'ch diwylliant, â'r hyn sy'n gwneud eich ardal yn arbenning i chi?

Mae'r gwaith o gasglu llenyddiaeth Eryri ar gyfer creu Cyfeiriadur Digidol bellach wedi cychwyn, gyda chyfraniadau yn amrywio o hwiangerddi i ddyfyniadau o lyfrau taith i ygrifau buddugol eisteddfodau lleol.

Menter newydd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mewn cydweithrediad â chyrff eraill, yw Bwrlwm Eryri, a chreu'r adnodd hwn yw prosiect cyntaf y fenter. Bydd y Cyfeiriadur yn galluogi unrhyw un i chwilio yn gyflym ar y We am gerdd neu rigwm neu ysgrif sydd un ai yn waith llenor arbennig, neu sy'n sôn am destun sy'n cyfrannu at ymdeimlad pobl o berthyn i ardal ac amgylchfyd.

Os oes gennych bytiau difyr o ddyddiadur, adroddiad papur newydd, neu farddoniaeth wreiddiol yn llechu ym mhellafoedd eich cof neu yng ngwaelodion hen focs, dewch â nhw i'r golwg! Mae gan eich cyd-lynydd lleol hefyd restr o awduron hen a newydd y gallesid cynnwys peth o'u gwaith yn y Cyfeiriadur, ac rydym yn awyddus i gynnwys gwirfoddolwyr eraill yn y broses o'u cyfrannu drwy gyfrwng ffurflen ar y We. Dyma sut i wneud hynny:

1. Teipiwch ac arbedwch eich dewis chi o lenyddiaeth gan ddefnyddio rhaglen prosesu geiriau (e.e. Word/Notepad.)
2. Ewch i www.bwrlwmeryri.co.uk a lawrlwytho'r ffurflen cywain llenyddiaeth.
3. Dyfynnwch y cyfrinair (ar gael gan eich cyd-lynydd neu gan Swyddog Bwrlwm Eryri).
4. Llenwch y bocsys bach ac ymlynwch eich ffeil o lenyddiaeth yn y bocs olaf.
5. Gwasgwch y botwm 'cyfrannu'.

Bydd pob eitem yn gyfraniad gwerthfawr i'r Cyfeiriadur Digidol o Lenyddiaeth Eryri a fydd, gyda'ch cymorth chi, yn adnodd gwerth chweil i ysgolion, llyfrgelloedd, ac unrhyw un sydd â mynediad i'r We.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Meg Elis cydlynydd ardal *Eco'r Wyddfa*, ar (01286) 650 756 / newidcymru@btinternet.com neu ag Elin Alaw, Swyddog Bwrlwm Eryri ar (01766) 772 532/ elin.alaw@eryri-npa.gov.uk. Gwybodaeth hefyd ar gael yn www.bwrlwmeryri.co.uk.

# Tri Mis o Ddathlu

**Canmlwyddiant Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru**

Yn ardal Bangor, gan mlynedd yn ôl, y cychwynnodd mudiad a wnaeth waith amhrisiadwy i ddiogelu un o agweddau pwysicaf y traddodiad Cymraeg: ein caneuon gwerin. O dan arweiniad J. Lloyd Williams, darlithydd mewn Botaneg yn y Brifysgol, aeth nifer o fyfyrwyr ati i gofnodi'r caneuon mewn gwahanol ardaloedd, ac o hynny y tyfodd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym 1906 a daeth y Gymdeithas i fod yn ffurfiol ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Onibai am waith aruthrol yr arloeswyr cynnar hyn mae'n debyg y byddai cyfran helaeth o hen ganeuon gwerin Cymru wedi mynd ar ddifancoll. Er mwyn dathlu canmlwyddiant y Gymdeithas eleni, cynhelir tair cynhadledd undydd mewn sefydliadau a fu'n allweddol i'r gwaith o hyrwyddo asstudiaethau ym maes canu gwerin.

**Aberystwyth, 25 Chwefror**
**Llyfrgell Genedlaethol**

Wyn Thomas: *Jennie Williams*;
Daniel Huws: *Y Casglyddion Cynnar*;
Meredydd Evans a Phyllis Kinney: *'Y cribinwyr caneuon'*;
Rhidian Griffiths: *Casgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol*;
Robin Huw Bowen: *Datganiad ar y delyn deires.*

**Bangor, 25 Mawrth**
**Ysgol Gerdd Prifysgol Cymru**

Gwenan Gibbard: *Cerddoriaeth draddodiadol a'r Coleg ar y Bryn;*
David Jones: *W.S. Gwynn Williams;*
Stephen Rees: *Adfywiad Cerddoriaeth Werin Cymru;*
Cass Meurig: *Y Ffidil a'r Crwth.*

**Caerdydd, 22 Ebrill**
**Amgueddfa Werin Sain Ffagan**

Roy Saer: *Canu'r Fari Lwyd;*
Rhiannon Ifans: *Carolau Plygain;*
Wyn James: *Philip Thomas ac Ysgol Wyliau Llanwrtyd;*
Aelod o staff yr Amgueddfa Werin
Delwyn Sion: *Canu Gwlad Morgan.*

Cynhelir y tair cynhadledd gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru ac ni chodir tâl. Os am gofrestru ar gyfer un o'r dyddiau hyn cysylltwch â Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth ST23 2HX

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

# Prosiectau Ynni Newydd i Wynedd

Ar adeg pan fo pryderon cynyddol am newid yn yr hinsawdd a'r byd yn cynhesu, ac am ddyfodol cymunedau ffermio yr ardal oherwydd incwm isel ffermydd, mae Cymad, cwmni datblygu gwledig sydd â'i swyddfa ym Mhorthmadog, wedi dechrau cynllun all gynnig rhywfaint o gymorth at ddelio efo'r problemau hyn trwy gefnogi datblygiad hyd at 10 o gynlluniau trydan dŵr yng Ngwynedd.

Mae'r cynllun, a elwir 'Mae'r Rhod yn Troi' wedi denu cefnogaeth ariannol trwy Raglen Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd ac o Lywodraeth Cynulliad Cymru, a'r bwriad yw cefnogi cynlluniau trydan dŵr all gynhyrchu digon o drydan i'w werthu yn sylweddol i'r grid. Mae'r cynllun 'Mae'r Rhod yn Troi' yn medru cynnig grantiau hyd 35% at gostau astudiaethau dichonoldeb ac at gostau adeiladu cynlluniau tyrdan dŵr â'r gallu i gynhyrchu dros 100kw.

Dywedodd Dafydd Watts, sydd yn rheoli'r cynllun 'Mae'r Rhod yn Troi' i Cymad,

*'Nod y cynllun ydi, nid yn unig i greu mwy o drydan o ffynonellau adnewyddol yng Ngwynedd, ac felly helpu lleihau faint mae Gwynedd yn gyfrannu at y nwyon sydd yn achosi newid yn yr hinsawdd, ond hefyd i greu ffynonellau incwm newydd i gefn gwlad Gwynedd. Mae'r grantiau ar gael i bobl a busnesau cynhenid yn unig, er mwyn sicrhau bod y budd eceonmaidd yn aros yn lleol. Yr ydym ni'n disgwyl y bydd y rhan fwya o'r cynlluniau yn cael eu datblygu gan ffermwyr efo afonydd addas ar eu tir, fel ffordd i greu mwy o incwm i'r fferm. Ar hyn o bryd, yr ydym ni'n gweithio'n agos efo 6 o dirfeddianwyr ar gynlluniau posib, ac yn gobeithio gweithio efo ychydig rhagor cyn i'r cynllun ddod i ben ym Mawrth 2008. Mi fydd y cynlluniau yn defnyddio cored i dynnu cyfran isel o ddŵr o'r afon, ac mi fydd faint yn cael ei reoli yn dynn, ac yn dychwelyd y dŵr i'r afon yn is i lawr ar ôl iddo yrru twrbin.'*

Bu cynlluniau trydan dŵr yn bwysig yng Ngwynedd yn y gorffennol. Erstalwm, mi oedd llawer o gynlluniau bychain yn defnyddio afonydd yr ardal i gynhyrchu trydan i ffatrïoedd a chwareli, a golau i drefi a phentrefi, ond yn dilyn dyfodiad y Grid Cenedlaethol yn y 1940au a 50au, mi gaewyd y rhan fwyaf ohonyn nhw. Meddai Dafydd Watts,

*'Yr ydym ni'n gweithio yn agos efo Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri hefyd er mwyn sicrhau na fydd unrhyw gynllun sydd yn cael ei ddatblygu yn cael effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd. Mae llawer o afonydd yr ardal yn anaddas oherwydd eu bod nhw'n bwysig am resymau ecolegol.'*

Dros y ddwy flynedd nesaf mae cynllun Rhod yn Troi yn gobeithio cynnig cymorth i nifer o gynlluniau a fydd, efo'i gilydd, yn medru cynhyrchu tua 2.5MW o drydan, sef digon i gwrdd ag anghenion tua 1,600 o dai. Mae llawer o gynlluniau tebyg posib yng Ngwynedd wedi cael eu hystyried dros y 15 mlynedd diwethaf, ond heb gael eu datblygu oherwydd nad oedden nhw'n ddigon hyfyw yn ariannol. Mae cynllun Rhod yn Tori yn gobeithio helpu gwireddu cynlluniau fel y rhain trwy gynnig cymorth grant. Dywedodd Dafydd Watts,

*'Er mwyn medru cynhyrchu digon o drydan, mi fyddai rhaid wrth afon neu nant sylweddol, a digon o ddisgynfa rhwng y mannau tynnu a dychwelyd y dŵr i'r afon. Hoffwn glywed gan unrhyw un sydd yn meddwl bod ganddyn nhw safle posib, ac sydd yn awyddus datblygu cynllun. Mae croeso i bobl fy ffonio i ar (01766) 543053.'*


**CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL**

**CEIR CYMRU**


**Bethel (01248) 670451**

**(Hefyd yng Ngherrig-y-Druidion)**

**Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.**

**'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**

# CROESAIR MAWRTH



**Ar Draws**

4. Gêm gyda 22 o chwareuwyr ar y cae.
7. Mae gan yr anifail anwes yma fochau llawn o fwyd fel arfer.
8. Cewch deithio mewn un o rhain i fynd o Gonwy i Gyffordd Llandudno.
9. Cartref Syr Michael Duff.
12. Mae angen aros pan mae'r lliw yma yn dangos.
13. Mae siâp rhyfedd ar y bêl i'r gêm yma.
17. 'Roedd gan Jac y Do un o rhain ar ei ben.
18. Man dysgu.
21. Llysieuyn oren.
22. Arferiad sy'n troi'n amhoblogol.
24. Cartref i robin goch, titw tomos neu jac y do er engrhaifft.
26. Mae llyfr yn llawn o hwn.
29. Organ clywed.
30. Prif ddinas Yr Alban.
31. Mae'n bosib reidio hwn yn y tŷ a mynd i nunlle.
32. Ffrwyth gyda chroen llithrig.
33. Offeryn cerddorol gyda ifori.
36. Nid oedd ystafell ar gael yma un tro.
37. Adeiladwr castell Caernarfon.
43. Gallwch gadw tegannau, bwyd neu ddillad mewn un o rhain.
45. Fe adeiladodd Edward y 1af lawer o rhain.
47. Mae gan hwn ddwy o freichiau ond dim corff
49. Mae gan hwn dwy goes ond dim corff!
51. Mae pedwar o rhain ar eich car.
52. Mae llyfrgell yn llawn o rhain.
54. Cewch eistedd ar hon yn y parc.
55. Y prif bwnc trafod ym Mhrydain.
56. Cartref i tŵr Eiffel.

**I Lawr**

1. Blodyn o Amsterdam.
2. Nid yw hwn yn hoff o wario.
3. Mae hwn rhwng Ynys Môn a'r Felinheli.
4. Melin gweithio gwlân.
5. Ffrwyth neu liw.
6. Bydd hwn yn swnio os bydd tân.
7. Gwysgwch hwn i ddangos eich cefnogaeth.
10. Afon drwy Pontllyfni.
11. Cynheswr llaw.
14. Mae rhai yn gwario trydydd eu bywyd yma.
15. Port Dinorwig.
16. Blew ar yr wyneb.
19. firrudfiayc (anagram)
20. Cartref cynfas.
21. Moby Dick.
23. Mae angen defaid i gael hwn.
25. Y gaeaf, y gwanwyn, yr haf neu'r hydref.
26. Byddwch yn tisian os snwyrwch hwn.
27. Cartref dros dro.
28. Afon drwy Caernarfon.
34. Gwyrfai, Glaslyn neu Llyfni.
35. Bowns (anag.)
38. Mae angen un o'r rhain i roi colur.
39. Beth sydd angen yn y llys.
40. Gloyn byw.
41. Gôl-geidwad tîm Mr Picton.
42. Canolwr tîm pêl-droed Lerpwl.
44. Mae llawer yn gwylio hwn tra yn eu gwaith.
46. Sbort Greg Rusedski.
48. Afon trwy Bethesda.
49. Cewch olau a gwres o hwn.
50. Mae angen aros yma i wella yn iawn.
53. Padarn, Cwellyn neu Tecwyn.

Y cyfeiriad i yrru'r atebion yw: 'Croesair', Tecwyn Evans, Tremallt, Waunfawr, Gwynedd, LL55 4YY erbyn 20 Mawrth.

## Rhoddion

**£10:** Betty Lloyd Roberts, 6 Bro Deiniol, Deiniolen; Madge, Delyth, Lyn a Dyl;an, Tyddyn Eilian, Llanberis; Dilys Baylis, Llanberis; Mr Gwilym Green, Llwyncoed Bach, Penllyn, Brynrefail; Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Pontrhythallt, Llanrug.

**£5:** Elizabeth Evans, Pen Parc, Bethel; Mrs E. Hughes, 1 Y Bwthyn, Deiniolen; Teulu'r ddiweddar Anwen Thomas 97 Pentre Helen, Deiniolen.

Oes gennych chi stori? Dowch â hi i'r **Eco**

Cefnogwch ein Hysbysebwyr





CANOLFAN GERDD WILLIAM MATHIAS

*Gŵyl Delynau*
Rhyngwladol Cymru
16 - 23 Ebrill
Galeri, Doc Victoria
Caernarfon 2006

Cyfarwyddwraig *ELINOR BENNETT* — Llywydd Anrhydeddus *Dr. OSIAN ELLIS*

Prif Noddwyr
*TELYNAU CAMAC*
Mewn cyd-weithrediad â **Thelynau Vining**

*PUMP CYSTADLEUAETH*
Gwobrau yn cynnwys Telyn Gyngerdd a Thelyn Geltaidd rhoddedig gan **CAMAC**

CYNGHERDDAU • DOSBARTHIADAU

7.30pm - Sul y Pasg Ebrill 16
CYNGERDD AGORIADOL
*ISABELLE MORETTI*
Athrawes y delyn yn y Conservatoire Nationale Superieur de Musique, Paris

7.30pm - Mawrth Ebrill 18
Cerddoriaeth Telyn y Byd
*CYNGERDD SAIN*
**Andrew Lawrence King** (Telyn Sbaenaidd, groes-dannau) • **Robin Huw Bowen** (Telyn Deires)
**Paul Dooley** (Telyn tannau pres) • **Catriona McKay** (Clarsach)
**Zi Lan Liao** (Ku-Cheng Tseina) • **Gwenan Gibbard** (Telyn a llais)

7.30pm - Mercher Ebrill 19
*CATRIN FINCH • ELINOR BENNETT*
PEDWARAWD LLINYNNOL PAVAO
Cerddoriaeth gan: **Debussy • Caplet • Saint-Saens • Bizet** Perfformiad cyntaf "Sonata" gan **Geraint Lewis**

7.30pm - Dydd Sadwrn Ebrill 22
Cyngerdd Jazz
*DEBORAH HENSON-CONANT*

2.30pm - Sul Ebrill 23
*Cystadleuaeth Pencerdd*
Gwobr Gyntaf: **TELYN GYNGERDD** gan **CAMAC**
**SWYDDFA** DOCYNNAU 01286 685 222
e-bost: cgwm@lineone.net
www.gwyl-telyn-cymru.com

CAMAC HARPS

Rhif Cofrestredig Elusennol 1084271

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu
07050 357735



FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
*PORCHES*
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS

BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

# CHWARAEON

## Hawl i Ddewis

Yn anffodus ni ddigwyddodd y wyrth a daeth taith Bethel i ben yng Nghwpan yr Arfordir. Rhaid talu teyrnged i Fae Colwyn am eu hagwedd yn ystod y gêm. Nid oedd unrhyw fychanu, yn enwedig o gofio fod tîm cryf ganddynt ar y noson.

Gyda Bethel, yn naturiol, yn gwthio pawb tu ôl i'r bêl, roedd yn ymarferiad da i'r tîm cartref. Un peth siomedig oedd fod nifer o'r goliau wedi dod o ergydion o ymyl y blwch cosbi – rhan o'r cae lle dylai'r amddiffyn fod ar ei gryfaf. Chwaraewyr ganol cae y Bae oedd yn sgorio'r goliau yma. Peth anodd yw newid greddf ar gyfer un gêm, ond eto amlygwyd y ffaith fod ganol cae Bethel yn fwy cyfforddus yn ymosod nag yn gwneud y gwaith caib a rhaw o bigo i fyny ac amddiffyn. Cael y cydbwysedd o chwaraewyr ymosodol ac amddiffynnol yng nghanol y cae yw sail llwyddiant. Serch y sgôr, gall Bethel ymfalchïo yn eu llwyddiant a'r *scalps* a gymerwyd. Dylai'r profiad eu sbarduno am weddill y tymor.

Rhaid canmol cyflwr ardderchog maes Ffordd Llaneilian. Dyma'r gorau i mi weld y tymor yma. Clod i Elfed Morris – enw cyfarwydd o'r 60/70au – y tirmon gweithgar. (Tipyn o siom oedd gweld maes Stadiwm y Mileniwm yn torri i fyny mor ddrwg.)

Cefais sgwrs â chefnogwyr y Bae yn ystod y gêm a diddorol oedd rhai o'u sylwadau. Cyfartaledd cyflog y chwaraewyr oedd £80, tipyn llai na'r mwyafrif yng Nghynghrair Cymru. Roedd y teithio rhywbeth tebyg, ond mai traffyrdd Lloegr nid yr A470 oedd y ddolen gyswllt. Yn y ddwy gynghrair acenion Glannau Merswy sy'n britho'r maes. Roedd sawl enw cyfarwydd i gefnogwyr Bangor a Chaernarfon yn nhîm y Bae. Dilyn Adie Jones, y rheolwr, yn union fel roedd nifer yn symud rhwng timau'r arfordir yn ystod oes aur y Welsh League yn y 60/70au.

Wrth gwrs, fe gododd yr hen gwestiwn a ddylsai'r 'Bae' ddod i chwarae yng Nghynghrair Cymru. Anodd dweud hyn mae'n siŵr, o gofio'r achos llys 'enwog' a waedodd goffrau'r 'Welsh F.A.'. Serch hynny, mae Caernarfon yn ôl yn y gorlan erbyn hyn.

Yn gyffredinol, nid oedd fawr o awch ar y cefnogwyr i droi'n dîm Cymreig. Yn drydydd yn eu cynghrair eleni a dau gam o'r 'Conference', roedd rhai o'r cefnogwyr yn teimlo fod cyfle i godi ar hyd y pyramid Seisnig. Soniwyd am yr hen obaith o rediad yng Nghwpan F. A. Lloegr, ond breuddwyd gwael yw hynny go iawn. Nid oedd y ddadl fod clybiau fel T.N.S erbyn hyn yn derbyn arian da am gystadlu yn Ewrop i'w weld yn apelio. Efallai bod rhyw deimlad nad oedd ddiddordeb ganddynt os nad oedd gwir gyfle i ennill.

Yn ddaearyddol mae Bae Colwyn mewn safle ddelfrydol. Ar eu stepan drws mae gemau gwneud pres fel Bangor a Rhyl. Mae dros hanner y clybiau yn Nghynghrair Cymru o fewn taith rhyw awr a hanner o'r Bae – elfen bwysig i ddenu cefnogwyr teithiol. Yn sicr mae eu cyfleusterau, ar wahân i ddiffyg eisteddle sylweddol, gystal ag unman.

Hen ddelfryd, mae'n siŵr, yw mynnu fod pob clwb ar dir Cymru a'u gwrogaeth i bêl-droed Cymru. Gyda'r Gynghrair Genedlaethol erbyn hyn wedi cyrraedd ei harddegau – gyda noddwr – dyma'r amser i ddiffinio llwybr pendant iddi. Onid y brif gynghrair i'r prif glybiau ddylsai fod, gydag ail adran hefyd o 12 clwb gyda esgyn a disgyn yn bosibilrwydd. Llai o glybiau, mwy o gefnogwyr ardal, a gobeithio mwy o arian yn cylchdroi drwy'r system.

## Mor Hawdd yw Llithro

Denodd dau ganlyniad fy sylw yn ddiweddar: Bethel 3 Conwy 0, ac yna Llanberis 7 Bae Cemmaes 0. Os oedd y canlyniad cyntaf yn sioc, nid felly yr ail. Beth yw'r cysylltiad meddech chi?

Bum mlynedd yn ôl yr oedd Bae Cemmaes a Chonwy yn chwarae yn y Gynghrair Genedlaethol. Erbyn heddiw maent yn yr is-gynghreiriau. Yn wir y mae'n bur debygol y bydd Cemmaes yn disgyn eto, ac y byddant yng Nghynghrair Gwynedd y tymor nesaf.

Roedd si ym Mae Colwyn fod y Bae am brynu yr eisteddle braf sydd ar faes Conwy ar y Morfa. Sut mae sefyllfa fel hyn yn gallu digwydd? Cam-weinyddu? Gorwario? Diffyg cynllun busnes cadarn? Pwy a ŵyr, ond y mae'n sefyllfa y dylai'r awdurdodau pêl-droed edrych arni wrth dderbyn timau i'r brif gynghrair.

## Llwyddiant – Ar Pa Bris?

Ychydig a feddyliais wrth adael Stadiwm y Mileniwm wedi'r fuddugoliaeth dros yr Alban fod storm fawr ar dorri unwaith eto yng nghoridorau pŵer Undeb Rygbi Cymru. Ysgrifennaf y llith yma cyn y cyfarfod 'esbonio' rhwng Ruddock a swyddogion yr Undeb. Erbyn hyn mae'n siŵr fod y resymau i gyd yn gyhoeddus, a gobeithio na fydd y 'baw' yn dal i hedfan.

Yr oedd yn amlwg i bawb nad oedd 'rhesymau teuluol' yn gwir ddisgrifio y rhwyg a arweiniodd at y gwahanu. Er, wedi meddwl, efallai mae'r 'teulu' dan sylw yw'r uned rhwng yr hyfforddwr a'r teulu o chwaraewyr. Yn amlwg hefyd roedd 'teulu' rhai o swyddogion yr undeb hefyd yn llechu yn y cysgodion.

Nid ar chwarae bach y mae rhywun sydd newydd gipio'r Gamp Lawn gyda chwarae mor wefreiddiol, ac yn ennill £147,000 y flwyddyn yn rhoi'r ffidil yn y to. Yn amlwg nid yw ffrae gyhoeddus – ac mae hyn yn dueddiad gennym ni'r Cymry – yn baratoad delfrydol ar gyfer y frwydr ar Ffordd Landsdowne. Unwaith eto, bydd môr Iwerddon yn troi'n fôr coch gyda'r miloedd yn gobeithio am ryw ffordd drwy donnau'r môr, i'n harwain eto at gyfnod o 'addewid'.

Yn ddi-os bydd cryn drafod yn Nulyn, yn enwedig gan y bydd mwy o ffeithiau wedi gweld golau dydd erbyn hynny. Mae'n siŵr na fydd ateb sy'n bodloni pawb ac, fel y Guinness, ni fydd du a gwyn, ac yn sicr cymer amser i 'setlo'.

Yn bersonol, ni welaf Ruddock yn dychwelyd i'w swydd, ond gobeithio an chollir ei ddoniau a'i gyfraniad i rygbi Cymru. Nid yw pethau'n rhy dda gyda thîm rhanbarth y brifddinas. A welwn ni Ruddock yn cymryd lle Dai Young?

## Y Llog Ddaeth o Slogan

Ychydig cyn y Nadolig cafodd Eifion Roberts, casglwr newyddion ardal Llanberis, alwad ffôn ddiddorol. Ar ben arall i'r lein roedd Ellen Whitehouse o Corby, ardal i ble'r ymfudodd nifer fawr o'r fro yn ystod y 50/60au. Mae Ellen yn ferch i'r diweddar Owen Jones, Eastlyn, Llanberis, a symudodd i Corby yn 1952, ac yn gyfnither i Cecil Jones, Conwy, erbyn hyn.

Un o brif ddiddordebau Ellen yw ymgeisio mewn cystadlaethau sy'n gofyn am lunio sloganau neu *catch phrases* ar gyfer cynnyrch cwmnïau sydd angen cymorth gyda'r gwerthiant.

Daeth llwyddiant i Ellen drwy lunio slogan ar gyfer y diodydd y mae Lucozade Sport yn eu cynhyrchu. Y llwyddiant yma arweiniodd at yr alwad ffôn. Y wobr am y gystadleuaeth oedd pecyn ymarfer pêl-droed, a dymuniad Ellen oedd i gynnwys y pecyn fynd at les tîm ieuenctid ym mro ei mebyd – sef Llanberis.

Wedi aml gysylltu, penderfynwyd danfon y pecyn cynhwysfawr i siop Costcutters yn y pentref, gan mai perchennog y siop yw Kevin Davies, rheolwr tîm pêl-droed dan 7 y pentref.

Yn y pecyn roedd 2 bêl, 16 potel cario dŵr, 2 ddaliwr i gario'r poteli, 14 pib ymarfer, 1 gôl ymarfer, 1 bag chwaraeon, 50 côn ymarfer a 2 wregys cyffwrdd. Rhannwyd yr eitemau rhwng timau dan 7, dan 8 a dan 15 y pentref. Cedwir rhai eitemau fel y gôl yn y Ganolfan er budd holl dimau ieuenctid y pentref.

Dymuna'r timau i gyd a'u harweinyddion ddiolch i Ellen am ei haelioni.

Yn amlwg mae Ellen yn dipyn o giamstar ar greu y llinellau. Bu rhai yn ceisio cysylltu â hi i ddiolch ond roedd i ffwrdd am wyth diwrnod yn mwynhau gwobr arall – gwersi sgio yn Finland.

Gyda llaw ei hymdrech i'r llinnell: *'I love Lucozade Power…'* oedd,

*For explosive energy at any hour*
*Lucozade fulfills my thirst for power.'*



*Kevin Davies a thîm pêl-droed dan 7 Llanberis gyda rhai o'r 'danteithion'.*

## Cofio'r Haul a Chymeriadau

Colled fawr i griced lleol oedd dirwyn i ben Gynghrair Griced Gwynedd y tymor diwethaf. Fel y 'Caernarfon and Anglesey League', yna'r 'Gwynedd' ac yn ddiweddar yr 'Holland Arms', bu'n gyfle i sawl un. Yn druenus nid yn unig y gynghrair sydd wedi ffarwelio, ond hefyd nifer o'r clybiau. Mae cryn fwlch ym map cricedol Gwynedd erbyn hyn, a phawb o dan ymbarél Cynghrair y Gogledd. I gofio y dyddiau da, mae tri a fu'n driw iawn i'r gynghrair wedi trefnu 'Noson o Hel Atgofion' yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd, ar nos Wener, Mawrth 31.

Y tri gŵr doeth yw Vivian Evans (Bethesda) a Gerald Parry ac Andrre Lambrecht (Fron Dinas). Y mae'r tri wedi chwarae'r gêm yn gystadleuol ond hefyd â 'gwên ar eu gwyneb'. Dylai fod yn noson hwyliog iawn, yn cofio achlysuron a chymeriadau.

Cadwch eich llygaid a chlustiau yn agored am fwy o fanylion.